Rhif ymchwil gymdeithasol: 61/2025

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2025

# Gwerthusiad o’r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng 2020 a 2025: Adroddiad Interim

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83715-897-3

Gwerthusiad o’r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2025: Adroddiad Interim

Ebrill 2025

Awduron: Endaf Griffiths, Dr Lowri Cunnington-Wynn, Wavehill: ymchwil gymdeithasol ac economaidd

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, E; Cunnington-Wynn, L. (2025). Gwerthusiad o’r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2025: Adroddiad Interim . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 61/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthuso-lleoedd-lleol-ar-gyfer-natur-2020-i-2025

Safbwyntiau’r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Tîm Ymchwil Hinsawdd a'r Amgylchedd

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Gwerthusiad o'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng 2020 a 2025: Adroddiad Interim ..... 1

Rhestr o dablau ..... 2

Rhestr o'r ffigurau ..... 3

Geirfa ..... 4

1. Cyflwyniad a Chefndir ..... 5

2. Methodoleg ..... 9

3. Damcaniaeth Newid LPfN ..... 11

4. Cynllun Partneriaethau Natur Lleol ..... 22

5. Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol ..... 28

6. Cronfa Grantiau Cyfalaf Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) ..... 32

7. Y Cynllun Chwalu Rhwystrau ..... 40

8. Cynllun Pecynnau Cymunedol ..... 43

9. Casgliadau Interim ..... 54

10. Atodiad A: Modelau Damcaniaeth Newid sy'n dangos gweithgareddau ac ar gyfer y cynlluniau unigol ..... 58

11. Atodiad B: Pecynnau'r Cynllun Pecynnau Cymunedol ..... 67

12. Atodiad C: Dangosyddion perfformiad llawn fesul blwyddyn ariannol ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol ..... 68

## Rhestr o dablau


Tabl 5.1: Dosbarthiad prosiectau a ariennir gan y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol a chyllid fesul LNP ........ 28

Tabl 6.1: Dosbarthiad grantiau cyfalaf LPfN NLHF yn y sector cyhoeddus, 2020 i 2024 ..... 33

Tabl 6.2: Ardaloedd awdurdodau lleol sy’n derbyn mwy na £100,000 o gyllid grant, 2020 i 2024 (ac eithrio prosiectau sy’n cwmpasu mwy nag un ardal) [Sylwer 1]........ 33

Tabl 6.3: Tabl yn dangos safle MALIC ardaloedd awdurdod lleol a chanran y cyllid grant a gawsant [Sylwer 1] ........ 35

Tabl 7.1: Nifer a chyfanswm gwerth prosiectau Chwalu Rhwystrau yn ôl ardal ALI ........ 41

Tabl 8.1: Prosiectau a gymeradwywyd yn ôl blwyddyn ariannol, pecynnau cychwyn a phecynnau datblygu ........ 43

Tabl 8.2: Nifer y prosiectau yn ôl math o leoliad, fesul pecyn a chyfanswm dros oes y cynllun (pob blwyddyn ariannol) [Sylwer 1] ........ 46

Tabl 8.3: Y mathau o sefydliadau sy’n darparu prosiectau a gefnogwyd; pecynnau cychwyn a datblygu – canran y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2024 ........ 47

Tabl 12.1: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 ........ 68

Tabl 12.2: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 ........ 68

Tabl 12.3: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 – wedi’u rhannu yn ôl ffrwd gyllido ........ 69

Tabl 12.4: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 ........ 70

## Rhestr o’r ffigurau

Ffigur 1.1: Strwythur rhaglen LPfN ........ 7
Ffigur 3.1: Damcaniaeth Newid amlinellol ar gyfer y rhaglen LPfN ........ 12
Ffigur 6.1: Delwedd o ddosbarthiad cyllid grant fesul ardal awdurdod lleol (ac eithrio prosiectau sy’n cwmpasu mwy nag un ardal*) ........ 34
Ffigur 8.1: Dosbarthiad y pecynnau cychwyn fesul ardal awdurdod lleol ........ 44
Ffigur 8.2: Dosbarthiad y pecynnau datblygu fesul ardal awdurdod lleol ........ 45
Ffigur 10.1: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen (gan gynnwys gweithgareddau/allbynnau, canlyniadau ac effeithiau) ........ 59

Ffigur 10.2: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer Cynllun LNP ........ 61
Ffigur 10.3: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y Cynlluniau Grantiau Cyfalaf Natur a Chwalu Rhwystrau ........ 62
Ffigur 10.4: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol ........ 64
Ffigur 10.5: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol ........ 65

## Geirfa

- KWT: Cadwch Gymru’n Daclus
- LNP: Partneriaeth Natur Leol
- LPfN: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- NLHF: Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
- NRAP: Cynllun Gweithredu Adfer Natur
- OVW: Un Llais Cymru
- WCVA: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

Nod rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) Llywodraeth Cymru yw cefnogi cymunedau i greu ‘natur ar garreg eu drws’, ac mae’n cael ei darparu ar amrywiaeth o lefelau gwahanol (o awdurdod lleol i gymuned leol). Mae’r rhaglen yn targedu ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig at natur yn bennaf, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig.

Adroddiad interim yw hwn ar gyfer gwerthuso’r rhaglen, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024 ac sy’n rhedeg tan ganol 2025. Mae’n dilyn dau werthusiad blaenorol o’r rhaglen, a gyhoeddwyd yn 2021 ac yn 2023 (Powel, Burgess a Parkinson, 2021; Johnson a Vousden, 2023).

Gan fod gwerthusiadau blaenorol wedi canolbwyntio llawer ar elfennau proses a chyflawni’r rhaglen, bydd y gwerthusiad hwn yn adeiladu ar y dystiolaeth bresennol ar berfformiad a chanlyniadau LPfN. Yn benodol, nod y gwerthusiad hwn yw deall:

- Effeithiau cymdeithasol y prosiectau LPfN ar lefel grŵp cymunedol a lefel gymunedol gyffredinol yn eu hardaloedd.
- I ba raddau y mae LPfN wedi bod yn fecanwaith i annog cymunedau, unigolion a sefydliadau i weithredu i gefnogi a gwerthfawrogi natur.

Adroddiad interim yw hwn ar gyfer gwerthusiad sy’n mynd rhagddo. O’r herwydd, mae’r canfyddiadau a’r casgliadau a nodir i gyd yn rhai dros dro a gallent newid wrth i’r gwerthusiad fynd rhagddo.

## 1.1 Trosolwg o’r rhaglen a’r cynlluniau

Ers lansio rhaglen Lleoedd Lleol i Natur (LPfN) yn 2020, mae wedi canolbwyntio ar greu lleoedd sy’n cefnogi natur mewn cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac o gwmpas trefi. Mae’n canolbwyntio’n benodol ar ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig at natur, gan gynnwys cymunedau difreintiedig. Nid yw’r rhaglen yn rhagnodi’r hyn y dylai ei gefnogi, ac mae’n hyrwyddo dull gweithredu lle mae’r gweithgarwch yn cael ei ‘arwain gan y gymuned’.

Mae LPfN yn eang ac yn cael ei chyflwyno drwy bum cynllun ar wahân, ac mae’r rhain yn cael eu disgrifio’n fanylach yn y penodau sy’n benodol i’r cynlluniau yn yr adroddiad hwn:

1) Mae Cynllun Partneriaethau Natur Lleol (LNP) yn cefnogi Partneriaethau Natur Lleol ym mhob awdurdod lleol ac awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru i ddarparu gweithgareddau yn eu hardal. Nod cyffredinol y cynllun yw adeiladu rhwydwaith a fydd yn cynnwys pobl a chymunedau, yn ogystal â busnesau a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau, mewn gweithredu ymarferol a chynllunio strategol ar gyfer Cymru iach, gydnerth a chyforiog o natur. Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) sy’n rheoli’r cynllun, gyda’r arian yn cael ei ddosbarthau gan y Partneriaethau Natur Lleol.
2) Mae’r Cynllun Pecynnau Cymunedol, sy’n cael ei reoli gan Cadwch Gymru’n Daclus (KWT), yn darparu amrywiaeth o becynnau y talwyd amdanynt ymlaen llaw i grwpiau cymunedol i gyflawni prosiectau, gan gynnwys planhigion brodorol, offer, ac adnoddau eraill.


3) Nod y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol yw meithrin gallu rhanddeiliaid mewn cymunedau arfordirol drwy ddod â phartneriaid yn yr ardaloedd hynny at ei gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, adfer cynefinoedd naturiol, a chryfhau rhwydweithiau lleol ar gyfer gweithredu cynaliadwy. WCVA sy'n rheoli'r cynllun hwn hefyd, gyda'r arian eto yn cael ei ddosbarthau gan y Partneriaethau Natur Lleol perthnasol.
4) Roedd Cronfa Grantiau Cyfalaf LPfN Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (a oedd wedi dod i ben adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Chwefror 2025) yn darparu cyllid i alluogi cymunedau i adfer a gwella byd natur yng Nghymru, ac roedd yn cael ei rheoli gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF).
5) Roedd y Cynllun Chwalu Rhwystrau (a oedd wedi dod i ben hefyd adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Chwefror 2025), a oedd yn cael ei reoli gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd, yn darparu cyllid refeniw i gynnwys cymunedau difreintiedig mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â natur.

Mae cyllid refeniw cymedrol hefyd yn cael ei ddarparu i Un Llais Cymru (OVW) i gyflogi cydlynydd LPfN i gefnogi ceisiadau gan gymunedau lleol a chynghorau tref a chymuned.

Ac eithrio costau rheoli mewnol Llywodraeth Cymru, roedd cyfanswm gwerth y rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024) ychydig dros £19m, gyda'r Cynllun LNP yn cynrychioli 77% o'r swm hwnnw.

Mae Ffigur 1.1 yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau a'r strwythur darparu ar wahân ym mhob un o bum cynllun y Rhaglen yn ogystal â rôl OVW. Mae'r diagram yn dangos sut mae'r arian yn cael ei ddarparu i brosiectau, gan gynnwys rôl rheolwyr cynlluniau a staff cyflawni ym mhob cynllun, lle bo hynny'n berthnasol. Ar ben hynny, mae'n nodi'r prosiectau eu hunain a'r cysylltiadau ar y lefel hon â derbynwyr grantiau a sefydliadau partner i'w cyflawni, a sut mae'r prosiectau hyn yn ymgysylltu â phobl a chymunedau drwy gynnwys gwirfoddolwyr ac ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned drwy gamau gweithredu sydd wedi'u hariannu.

**Ffigur 1.1: Strwythur rhaglen LPfN**



Disgrifiad o ffigur 1.1: Siart llif o'r enw "Llefydd Lleol ar gyfer Byd Natur 2020-2025" sy'n dangos strwythur a llwybrau cyllido pob cynllun yn y rhaglen LPfN. Mae Llywodraeth Cymru ar frig y siart fel cyllidwr y rhaglen. O dan Lywodraeth Cymru, gwelir y sefydliadau sy'n arwain y cynlluniau - WCVA (Partneriaethau Natur Lleol a Chapasiti Arfordirol), Cadwch Gymru'n Daclus (Pecynnau Cymunedol), y Gronfa Dreftadaeth (Grantiau Cyfalaf a Chwalu Rhwystrau), ac Un Llais Cymru (cymorth i Gynghorau Tref a Chymuned). Mae'r saethau'n dangos llif yr arian gan y sefydliadau hyn. Mae'r saethau'n llifo i lawr o'r sefydliadau hyn i flychau gan dynnu sylw at weithgareddau a staff allweddol y cynllun, gan gynnwys Rhwydweithiau a Chydlynwyr LNP, staff KWT, staff y Gronfa Dreftadaeth a Chydlynydd LPfN (Un Llais Cymru). Yr haen nesaf i lawr wedyn yw'r gweithgarwch/cefnogaeth sydd ar gael drwy bob un o'r cynlluniau i bobl a chymunedau:

- Partneriaethau Natur Lleol: Cynlluniau Cyflawni, Cronfa Her a phrosiectau a ariennir
- Pecynnau Cymunedol: pecynnau amrywiol
- Grantiau Cyfalaf y Gronfa Dreftadaeth: prosiectau £10k i £100k a phrosiectau £100k i £250k
- Chwalu Rhwystrau: prosiectau a ariennir
- Cymorth i Gynghorau Tref a Chymuned: Ymgynghori a Hyfforddiant.

Mae'r graffigyn hefyd yn dangos amrywiaeth y staff sy'n rhan o'r broses o roi'r rhaglen ar waith: Staff Llywodraeth Cymru, rheolwyr Cynlluniau, staff Rhwydwaith (LNP), Staff cyflawni, sefydliadau sy'n derbyn grantiau, sefydliadau partner sy'n cyflenwi, gwirfoddolwyr prosiectau ac, yn olaf, pobl a chymunedau.

## 1.2 Strwythur yr adroddiad

Dyma strwythur gweddill yr adroddiad hwn:

- Mae Adran 2 yn rhoi golwg cyffredinol o'r fethodoleg ar gyfer gwerthuso.
- Mae Adran 3 yn nodi Damcaniaeth Newid y rhaglen, gan gynnwys damcaniaeth sylfaenol LPfN a'i chynlluniau fel ymyriadau.
- Yna, mae Adrannau 4 i 8 yn edrych ar bob cynllun yn unigol i roi dealltwriaeth glir o'u hamcanion, eu cwmpas, a'r dystiolaeth sydd ar gael am eu canlyniadau fel yr oedd ganol i ddiwedd 2024.

Yn olaf, mae Adran 9 yn dwyn ynghyd y casgliadau dros dro a'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg yn dilyn y gwerthusiad.

# 2. Methodoleg

## 2.1 Trosolwg

Mae dull sy'n seiliedig ar theori yn cael ei ddefnyddio yn y gwerthusiad hwn. Mae'n canolbwyntio ar 'Damcaniaeth Newid' sydd wedi'i diffinio'n dda ar gyfer y rhaglen, a ddatblygwyd fel rhan o gamau cychwynnol y gwerthusiad ac a nodir yn Adran 3. Ar ôl sefydlu'r ddamcaniaeth, caiff ei phrofi drwy nifer o ffynonellau tystiolaeth. Defnyddir dulliau cymysg ar gyfer y gwerthusiad hwn, gan ddwyn ynghyd ddata monitro ac astudiaethau achos a gasglwyd gan y cynlluniau, cyfweliadau â staff a rhanddeiliaid eraill, arolygon cyfranogwyr y cynllun, ac ymweliadau safle â phrosiectau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd. Bydd y dulliau hyn yn dwyn ynghyd ac yn triongli data ansoddol a meintiol i greu sylfaen dystiolaeth gadarn a chynhwysfawr.

## 2.2 Tasgau a wnaed ar gyfer yr adroddiad interim hwn

### 2.2.1 Cyfweliadau cwmpasu

Cynhaliwyd cyfanswm o 15 cyfweliad cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (n=3), staff rheoli'r cynllun (KWT, WCVA, NLHF, n=6), cydlynwyr LNP (n=5) a chydlynydd OVW (n=1) i drafod y blaenoriaethau ar gyfer y gwerthusiad a datblygu dealltwriaeth y tîm gwerthuso o'r wybodaeth sydd ar gael i lywio'r gwerthusiad. Mewn rhai achosion, bu'r tîm gwerthuso yn ymgysylltu â rheolwyr a chydlynwyr cynlluniau mewn trafodaethau dilynol a negeseuon e-bost i archwilio'r data a oedd gan bob cynllun.

### 2.2.2 Presenoldeb yng nghyfarfodydd rhwydwaith y cynllun

Bu'r tîm gwerthuso mewn tri chyfarfod o'r rhwydweithiau a sefydlwyd fel rhan o gynlluniau LPfN i gyflwyno'r gwerthusiad ac i wrando ar drafodaethau. Nid oedd hyn yn rhan ffurfiol o'r gwerthusiad (ac felly nid oedd wedi'i gofnodi fel y cyfryw) ond roedd yn helpu i sicrhau bod y tîm gwerthuso yn deall y rhaglen a'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys dau gyfarfod o rwydwaith cydlynwyr LNP ac un o rwydwaith cydlynwyr y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol.

### 2.2.3 Gweithdy Damcaniaeth Newid

Ar 31 Gorffennaf, cynhaliwyd gweithdy dros lwyfan Microsoft Teams gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i adolygu a thrafod y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer LPfN (fel y nodir yn Adran 3 yr adroddiad hwn).

### 2.2.4 Adolygu a dadansoddi adroddiadau a data monitro

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r data monitro a'r adroddiadau ar gyfer pob un o'r cynlluniau LPfN. Roedd hyn yn cynnwys data allbwn ar gyfer gweithgareddau a gynhaliwyd, yn ogystal â thros 350 o astudiaethau achos a gynhyrchwyd ar gyfer prosiectau a gefnogwyd gan y Cynllun Pecynnau Cymunedol. Darparwyd adroddiadau cwblhau a/neu werthuso gan NLHF ar gyfer 38 o'r 41 prosiect a dderbyniodd grant Cronfa Gyfalaf LPfN NLHF. Roedd adroddiadau gwerthuso a chwblhau ar gael ar gyfer 26 prosiect, gyda 12 prosiect arall wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ar sail yr adroddiad cwblhau yn unig.

Hefyd, darparodd NLHF adroddiadau interim ac adroddiadau cwblhau ar gyfer wyth prosiect a oedd yn cael eu hariannu gan y Cynllun Chwalu Rhwystrau.

### 2.2.5 Cyfweliadau â rhanddeiliaid

Yn ystod mis Awst a mis Medi 2024, cynhaliwyd cyfweliadau â 26 o randdeiliaid a oedd yn ymwneud â gwahanol agweddau ar y rhaglen: 9 cydlynydd LNP [troednodyn 1], 11 swyddog prosiect KWT, 2 swyddog grant NHLF, a 4 cynrychiolydd o gynghorau cymuned/tref a gefnogir gan y rhaglen [troednodyn 2]. Pwrpas y cyfweliadau hyn oedd dechrau casglu barn am ymgysylltu â'r gymuned leol (gan gynnwys y rhwystrau), sut mae gwelliannau i safleoedd wedi cael eu cynnal, a'r ffordd y mae'r rheini sy'n cymryd rhan yn gweld y canlyniadau..

### 2.2.6 Dadansoddi ac adrodd

Cynhaliwyd dadansoddiad sylfaenol gan ddefnyddio'r data monitro a ddarparwyd, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, dosbarthiad yr arian yn ôl math o brosiect ac yn ôl daearyddiaeth. Cafodd data o astudiaethau achos ac adroddiadau eraill yn ymwneud â phrosiectau unigol a gefnogwyd ei echdynnu a'i gategoreiddio mewn taenlen. Roedd y categorïau'n seiliedig ar y themâu a nodwyd yn y fframwaith gwerthuso ar gyfer y gwerthusiad, a oedd wedi'i seilio ar y cwestiynau ymchwil a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn fras, roedden nhw'n cynnwys 'camau ymgysylltu a chefnogi i'w cymryd', 'camau cynnal sydd wedi'u cymryd', ac 'effaith camau gweithredu.' Yna, dadansoddwyd y data wedi'i gategoreiddio i nodi themâu cyffredin a gwybodaeth allweddol. Roedd hon yn broses ailadroddol, gyda themâu cyffredin yn cael eu nodi'n barhaus wrth i ddogfennau gael eu hadolygu. Caiff y prif ganfyddiadau eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

### 2.2.7 Y camau nesaf

Mae'n bwysig nodi eto bod y gwerthusiad yn dal i fynd rhagddo ac y dylid ystyried y canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn fel rhai dros dro. Mae'r canfyddiadau a drafodwyd yn seiliedig ar nifer gyfyngedig o gyfweliadau a thrafodaethau ynghyd ag adolygiad o astudiaethau achos ac adroddiadau eraill. Nid yw'r elfennau pwysig o waith ymchwil wedi cael eu cynnal eto, gan gynnwys ymgysylltu'n helaeth ag unigolion sy'n cymryd rhan mewn prosiectau yn ogystal â chymunedau lle mae gweithgareddau wedi cael eu cynnal. Caiff yr ymchwil hon ei chynnal ddechrau 2025, a'r bwriad yw cyhoeddi adroddiad yn gynnar yn ystod hydref 2025.

---

**Troednodiadau**

[1] Yn cynnwys 2 yng ngogledd Cymru, un yng nghanolbarth Cymru, pedwar yn y de-orllewin, a dau yn y de-ddwyrain. Roedd y rhain hefyd yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd awdurdod lleol gwledig yn bennaf (n=4) ac ardaloedd trefol yn bennaf (n=5).

[2] Un yn ngogledd Cymru, un yn y de-ddwyrain, a dau yn y de-orllewin. Roedd dwy o'r cymunedau yn drefol a dwy yn wledig.

# 3. Damcaniaeth Newid LPfN

## 3.1 Y ddamcaniaeth a’r rhesymeg


Damcaniaeth sylfaenol LPfN fel ymyriad, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, yw wrth greu ‘lleoedd natur’ lle gall pobl fyw a gweithio ynddyn nhw, bydd pobl yn fwy tebygol o’u gwerthfawrogi; os yw pobl yn gwerthfawrogi natur, maen nhw’n fwy tebygol o gefnogi mathau eraill o waith creu ac adfer lleoedd natur ar raddfa leol a chenedlaethol — gan gynnwys cynyddu camau gweithredu ar raddfa leol a chan unigolion i gefnogi byd natur. Yn ogystal, rhagdybir bod y broses o adfer neu greu lleoedd ar gyfer natur (hynny yw, cymryd rhan yn y prosiectau/gweithgareddau a gefnogir) yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i unigolion a chymunedau yn fwy cyffredinol.

Felly, mae dwy brif effaith gyffredinol y mae’r rhaglen yn ceisio ei chyflawni:

a) Cynnydd yn nifer yr unigolion sy’n cymryd camau i gefnogi natur
b) Llesiant cymunedol gwell.

Dangosir hyn yn Ffigur 3.1 fel dau ‘lwybr’ yn y Ddamcaniaeth Newid sy’n dechrau o’r gweithgarwch o greu mwy o ‘leoedd natur’. Mae’r llwybr ar yr ochr chwith yn dangos y daith tuag at effaith ‘cynnydd yn nifer yr unigolion sy’n cymryd camau i gefnogi natur’. Mae’r llwybr arall (ar y dde) yn dangos y daith tuag at effaith ‘llesiant cymunedol gwell’. Mae hyn yn awgrymu bod LPfN yn rhaglen sy’n ceisio cyfrannu at nifer o feysydd polisi Llywodraeth Cymru; nid ymyriad ‘natur’ yn unig ydyw. Mae modelau ar gyfer elfennau unigol y rhaglen ar gael yn Atodiad A (Ffigurau 10.1 i 10.5).

**Ffigur 3.1: Damcaniaeth Newid amlinellol ar gyfer y rhaglen LPfN**




Disgrifiad o ffigur 3.1: Siart llif yn dangos canlyniadau ac effeithiau creu mwy o 'leoedd natur'. Mae'r broses yn dechrau gyda blwch gweithgarwch â'r label "Cymerir camau i greu mwy o 'leoedd natur'." Mae hyn yn arwain at y dilyniant canlynol o ganlyniadau:

- "Cynnydd yn faint o natur sydd ar gael i bobl 'ar garreg eu drws'." gan arwain at "Mae pobl yn fwy tebygol o werthfawrogi natur." sy'n cyfrannu at "Mwy o gefnogaeth i waith adfer natur yn lleol a chenedlaethol." ac yn y pen draw "Mwy o weithredu gan unigolion i gefnogi byd natur" (dan y label Effaith).
- "Mwy o wirfoddoli a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau natur / awyr agored," gan arwain at "Cynnydd mewn rhwydweithio / rhwydweithiau cymdeithasol," sy'n cyfrannu at "Canlyniadau llesiant ac iechyd personol a theulu" ac yn y pen draw "Llesiant cymunedol gwell" (Effaith arall).
- "Cynnydd mewn 'balchder bro'," sydd hefyd yn cyfrannu at lesiant gwell.

Mae'r siart yn defnyddio saethau cyfeiriad i ddangos sut mae'r canlyniadau hyn yn gydgysylltiedig ac yn llifo tuag at yr effeithiau cyffredinol.

Un o nodau craidd LPfN yw gwneud yn siŵr bod pobl yn cael mwy o fynediad at natur yn eu cymunedau lleol, a sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu defnyddio gan drigolion, boed fel gwirfoddolwyr neu fel mathau eraill o ddefnyddwyr. Mae cynnwys ystod newydd, ehangach ac amrywiol o bobl yn y prosiect neu'r gweithgareddau – ac, felly, gyda natur – yr un mor bwysig wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

Os yw'r rheini sy'n ymwneud â'r prosiectau (boed fel gwirfoddolwyr neu fel defnyddwyr) eisoes o'r un meddwl â'r safbwyntiau a/neu'r mathau o ymddygiad y mae'r rhaglen yn ceisio eu hyrwyddo, ni fydd y canlyniadau a'r effeithiau y bwriedir i'r rhaglen eu cael – ar gyfer natur ac ar gyfer llwybrau cymunedol – yn cael eu gwireddu'n llawn. Mewn geiriau eraill, mae'n bwysig sicrhau bod y rhaglen a'i chynlluniau yn gwneud mwy na dim ond 'pregethu i'r rheini sydd eisoes yn credu' a'u bod yn ymgysylltu â'r rheini sydd eisoes yn ymddwyn yn y ffordd y mae'r rhaglen yn ceisio'i hyrwyddo (hynny yw, cymryd camau i gefnogi natur leol). Mae angen i gamau gweithredu LPfN hefyd gefnogi unigolion i oresgyn unrhyw rwystrau (rhai go iawn neu rai y tybir eu bod yn rhwystrau) a allai fod yn dylanwadu ar sut mae unigolion yn ymddwyn. Er enghraifft, gall pobl gefnogi'r angen am brosiectau natur lleol ond peidio â chymryd camau i gefnogi natur leol (hynny yw, mae eu cynnydd ar hyd y Ddamcaniaeth Newid yn anghyflawn). Efallai hefyd y bydd angen cymorth ar y rheini sy'n cymryd camau i gefnogi natur leol i barhau i gymryd y camau hynny (er mwyn i'r ymddygiad cadarnhaol fwrw gwreiddiau). Mae sicrhau bod y rhaglen yn gallu targedu'r cymysgedd hwn o gyfranogwyr sydd eisoes ag agweddau a mathau o ymddygiad amrywiol tuag at natur, yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen.

Felly, mae'r cwestiynau allweddol canlynol yn hanfodol ar gyfer y gwerthusiad, a byddwn yn mynd o dan groen y rhain wrth iddo fynd rhagddo:

- Pwy sy'n ymwneud â'r cynlluniau, y gweithgareddau a'r prosiectau?
- Beth oedd eu barn a'u hymddygiad cyn ymwneud?
- Beth yw eu barn ar ôl iddyn nhw ymwneud?
- A yw eu hymddygiad wedi newid?
- Pa mor ddwfn mae eu hymddygiad cadarnhaol wedi 'ymwreiddio' (a'i fod felly'n debygol o gael ei gynnal)?

## 3.2 Allbynnau a chanlyniadau

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng 'allbynnau' a 'chanlyniadau' yn y Ddamcaniaeth Newid. Allbynnau yw'r gweithgareddau a gyflawnir gan gynlluniau LPfN (a nodir fel 'gweithgareddau' yn y graffigyn uchod er mwyn cadw pethau'n syml). Gellir mesur a chyfrif allbynnau i olrhain y cynnydd o ran gweithredu cynllun. Er enghraifft, gall allbynnau gynnwys nifer y grantiau a ddyfarnwyd, nifer y cymunedau a gefnogwyd, a nifer y cyfranogwyr mewn gweithgarwch. Y canlyniadau, ar y llaw arall, yw'r newidiadau, y manteision a/neu'r effeithiau sy'n deillio o'r gweithgareddau hynny, y mae proses Damcaniaeth Newid yn canolbwyntio arnyn nhw. Y rhain hefyd yw prif ffocws y gwerthusiad hwn.

Mae amrywiaeth o allbynnau'n cael eu cofnodi ar gyfer y cynlluniau LPfN a/neu ar gyfer y prosiectau unigol a gefnogir, fel y trafodir yn Adrannau 4 i 8 yr adroddiad hwn. Maen nhw'n amrywio rhwng y cynlluniau, ond maen nhw'n cynnwys nifer y prosiectau a gefnogir, nifer y grantiau a ddyfarnwyd, a nifer y gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae maint y data sydd ar gael ar gyfer canlyniadau yn fwy cyfyngedig, a bydd y gwerthusiad yn ceisio mynd i'r afael â hyn wrth iddo fynd rhagddo.

Yn y broses o ddatblygu'r Ddamcaniaeth Newid, cafodd ystod o ganlyniadau posibl eu nodi ar gyfer y cynlluniau a'r rhaglen. Yn gyffredinol, bwriedir i'r canlyniadau hyn ddigwydd yn ystod un o dri cham y broses:

A. Cyn rhoi prosiect/cam gweithredu ar waith: gweithgareddau yw'r rhain sydd, er enghraifft, yn cefnogi datblygiad prosiect.

B. Yn ystod y broses o roi prosiect/cam gweithredu ar waith: gweithgareddau yw'r rhain sy'n helpu i sicrhau bod prosiect yn cael ei roi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys cymorth ymarferol pan fydd gwaith yn cael ei wneud (beth i'w blannu a phryd i'w blannu, er enghraifft) neu gyngor ar sut mae defnyddio amser ac ymdrechion gwirfoddolwyr.

C. Ar ôl rhoi prosiect/cam gweithredu ar waith: er enghraifft, cymorth i hyrwyddo bodolaeth safle sydd wedi cael ei ddatblygu i bobl leol, trafodaethau ar y camau nesaf posibl, ac ati.

Defnyddir y term 'prosiect' i ddisgrifio bod y cam gweithredu wedi cael ei roi ar waith gyda chefnogaeth/arian gan LPfN, er enghraifft, datblygu gardd gymunedol. Mae'r rhaglen yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae graffigyn Damcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys gweithgareddau/allbynnau, hefyd i'w weld yn Atodiad A ynghyd â modelau ar gyfer pob un o'r cynlluniau unigol yn Ffigurau 10.1 i 10.5.

### 3.2.1 Gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau allweddol ar gyfer y rhaglen LPfN cyn, yn ystod ac ar ôl rhoi'r prosiect ar waith

Nid yw'r holl weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau wedi'u nodi yma. Mae'r rhain yn enghreifftiau allweddol sydd wedi'u cynnwys i ddangos.

#### 3.2.1.1 (A) Cyn rhoi prosiect/cam gweithredu ar waith

Mae Cam (A) Cyn rhoi prosiect/cam gweithredu ar waith yn cynnwys gweithgareddau fel

- hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael
- cymorth i wneud cais am gyllid
- gweithgareddau rhwydweithio

Allbynnau'r cam hwn yw:

- nifer y prosiectau a gefnogwyd / grantiau a ddyfarnwyd
- nifer y cymunedau a gefnogwyd

Y canlyniadau yw:

- Mwy/gwahanol bobl a chymunedau'n cymryd rhan
- Mwy/gwahanol brosiectau/camau yn cael eu gweithredu

#### 3.2.1.2 (B) Yn ystod rhoi'r prosiect/cam gweithredu ar waith

Mae Cam (B) Yn ystod y broses o roi'r prosiect/cam gweithredu ar waith yn cynnwys gweithgareddau fel:

- cymorth yn cael ei ddarparu yn ystod y broses weithredu (nid pob cynllun)

Yr allbynnau ar gyfer y cam hwn yw:

- nifer y prosiectau a gefnogwyd yn ystod y cyfnod gweithredu
- nifer y cyfranogwyr/gwirfoddolwyr a gymerodd ran
- ardal a ddatblygwyd, nifer y planhigion a blannwyd, ayb.

Y canlyniadau yw:

- mwy o wirfoddoli a chymryd rhan ym myd natur
- cynnydd yn rhwydweithiau cymdeithasol y cyfranogwyr.

#### 3.2.1.3 (C) Ar ôl rhoi'r prosiect/cam gweithredu ar waith

Mae Cam (C) Ar ôl rhoi'r prosiect/cam gweithredu ar waith yn cynnwys gweithgareddau fel:

- hyrwyddo'r prosiectau sydd wedi cael eu rhoi ar waith

Allbynnau'r cam hwn yw:

- nifer yr astudiaethau achos
- nifer y digwyddiadau hyrwyddo
- nifer y bobl sy'n cael mynediad at brosiectau/safleoedd

Y canlyniadau yw:

- mwy o gefnogaeth i weithgareddau natur
- mwy o fynediad at natur
- manteision cymunedol ehangach
- a manteision llesian

## 3.3 Cyflawni'r canlyniadau

Nodwyd mewn cyfweliadau cwmpasu a thrafodaethau wrth ddatblygu'r Ddamcaniaeth Newid fod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu creu gan weithgareddau LPfN cyn, yn ystod ac ar ôl gweithredu prosiectau:

- Bydd gweithgareddau meithrin gallu, rhwydweithio a chefnogi datblygiad prosiectau yn arwain at ganlyniadau a fydd yn golygu bod gweithgarwch/camau'r prosiect LPfN a weithredir yn 'well' mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, gall cynllun roi cyngor i grŵp cymunedol sy'n ystyried gwneud cais am gyllid ar sut y gellid gwella eu prosiect, pa blanhigion i'w defnyddio, pryd i'w plannu, ac ati. Byddai hyn yn gwella'r prosiect a fyddai'n cael ei roi ar waith wedyn.
- Yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiect, gallai grŵp dderbyn cyngor ac arweiniad ymarferol gan aelod o staff y cynllun. Gellir cynghori grwpiau hefyd ar sut mae ymgysylltu â'r gymuned leol a gwirfoddolwyr, a bydd hyn unwaith eto yn gwella'r prosiect.
- Gall cyngor ar sut mae hyrwyddo gardd neu safle lle mae gwaith wedi'i wneud a sut mae annog pobl leol i ymweld wella prosiect (drwy wella ei effaith) ar ôl i'r gwaith ei hun gael ei gwblhau. Er enghraifft, gellid cefnogi hyn drwy'r cynllun LPfN drwy hyrwyddo prosiect neu safle ar wefan cynllun.

Mae'r Ddamcaniaeth Newid yn tynnu sylw at y posibilrwydd na fydd canlyniadau pwysig yn digwydd tan ar ôl i brosiect ddod i ben (gweler Ffigur 3.1 ac Adran 3.2.1). Er enghraifft, efallai na fydd y newid yn ymddygiad unigolyn y mae LPfN yn ceisio ei gyflawni neu gyfrannu ato yn digwydd tra bydd yr unigolyn yn cymryd rhan mewn prosiect LPfN. Ar ben hynny, os bydd newid mewn ymddygiad tra bydd yr unigolyn yn cymryd rhan mewn prosiect LPfN, efallai na fydd yn bwrw gwreiddiau (ac felly'n arwain at newid parhaus mewn ymddygiad) tan ar ôl i'w cyfranogiad yn y prosiect ddod i ben. Er mwyn i'r rhaglen gael yr effaith a ddymunir, mae angen i'r newid mewn ymddygiad fod yn rhywbeth y mae'r unigolyn yn ei wneud yn barhaus (yn hytrach nag 'unwaith yn unig' neu ychydig o weithiau'n unig) tra bydd yn cymryd rhan uniongyrchol mewn prosiect.

Mae hyn yn bwysig oherwydd ni ellir tybio y bydd y canlyniadau hynny'n cael eu creu (a'u gwreiddio) heb fod angen unrhyw gymorth neu ymyriad pellach. Ar gyfer ymyriad hyfforddi, yr hyn sy'n cyfateb fyddai tybio nad oes angen rhagor o gymorth ar y cyfranogwr ar ôl i'r hyfforddiant ddod i ben. Nid yw hyn yn wir yn aml iawn, ac mae angen rhagor o gymorth i helpu'r cyfranogwr i oresgyn rhwystrau a 'gweithredu' yr hyn mae wedi'i ddysgu (Er enghraifft: (Ravenhall a Woodhouse, 2023). Yn Adran 3.5, trafodir y rhagdybiaethau a nodwyd ymhellach. At hynny, mae'n bwysig cydnabod bod ffactorau eraill, fel profiadau personol, cefndir diwylliannol, ac amodau economaidd-gymdeithasol, hefyd yn dylanwadu ar sut mae pobl yn gwerthfawrogi natur a'u hymddygiad (Gifford a Nilsson, 2014), a cheir trafodaeth bellach ar rwystrau a ffactorau galluogi yn Adran 3.6.

## 3.4 Sut mae'r Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol yn cydweddu

Bwriad y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol yw meithrin gallu rhanddeiliaid mewn cymunedau arfordirol, cydnabod pwysigrwydd ardaloedd arfordirol ar gyfer adfer natur a llesiant cymunedol. Rheolir y cynllun ochr yn ochr â Chynllun LNP, a'i nod yw dod â'r partneriaid yn ardaloedd arfordirol Cymru at ei gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, adfer cynefinoedd naturiol, a chryfhau rhwydweithiau lleol ar gyfer gweithredu cynaliadwy. Cyflwynwyd y cynllun yn ddiweddarach yn ystod oes y rhaglen LPfN (yn 2023) ac, felly, nid wedi ennill ei blwyf cymaint ag elfennau eraill y rhaglen.

Un o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg wrth ddatblygu'r Ddamcaniaeth Newid yw bod y 'llwybr' ar gyfer cyfranogwyr yn y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol yn wahanol i'r un ar gyfer elfennau eraill y rhaglen. Mae hyn oherwydd y dull gweithredu gwahanol yn y cynllun hwnnw sy'n rhoi mwy o bwyslais ar feithrin gallu na'r cynlluniau eraill (fel sy'n cael ei drafod ymhellach yn Adran 9). Mae hyn yn golygu y gallai'r canlyniadau sy'n cael eu creu gan brosiectau a ariennir gan y cynllun Arfordirol fod yn wahanol i'r rhai a gyflawnir gan y cynlluniau eraill (gweler Atodiad A, Ffigurau 10.1 i 10.5). Mae'r pwyslais ar gynyddu cyfleoedd ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd môr lleol (ac felly effaith economaidd, nad yw'n nodwedd o'r cynlluniau eraill) a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o faterion morol, yn wahanol iawn i elfennau eraill y rhaglen.

Fodd bynnag, mae'r cysylltiad posibl rhwng y canlyniad 'gwella dealltwriaeth y cyhoedd o faterion morol' a 'mae pobl yn fwy tebygol o werthfawrogi natur' (fel y dangosir yn y model lefel rhaglen, Ffigur 3.1), yn faterion morol rhesymegol sy'n hanfodol i natur yn y rhanbarthau arfordirol. Mae astudiaethau wedi dangos bod mwy o wybodaeth am ecosystemau yn gallu arwain at fwy o bryder am yr amgylchedd a mathau o ymddygiad sydd o blaid yr amgylchedd. Mae rhaglenni addysgol sy'n canolbwyntio ar y môr wedi cael eu cysylltu â gwell agweddau tuag at gadwraeth cefnforoedd. Er enghraifft, canfu ymchwil a gynhaliwyd gan [Grŵp Gorchwyl Gwyddorau Cymdeithasol Pwyllgor Cydlynu Gwyddor Forol y DU (MSCC) (2018)] fod profiad personol o amgylcheddau morol yn hanfodol ar gyfer datblygu diddordeb a chefnogi ymdrechion cadwraeth. Edrychir yn fanylach ar hyn fel rhan o gam nesaf y gwerthusiad.

## 3.5 Rhagdybiaethau allweddol

Mae rhagdybiaethau'n rhan hanfodol o unrhyw Ddamcaniaeth Newid, gan gysylltu gweithgareddau (allbynnau) â'r canlyniadau ac, yn y pen draw, yr effaith ar ddiwedd y 'gadwyn'. Gall y rhagdybiaethau hyn ymwneud ag agweddau amrywiol fel y cyd-destun y mae'r rhaglen yn gweithredu ynddo, ymddygiad rhanddeiliaid, pa adnoddau sydd ar gael, a'r ffactorau allanol a allai effeithio ar lwyddiant y rhaglen. Mae nodi, archwilio a phrofi'r rhagdybiaethau hyn yn bwysig, gan ei fod yn helpu i ddeall y risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.

Mae'n bwysig nodi bod y rhagdybiaethau a gyflwynwyd wedi cael eu nodi gan y gwerthuswyr ar sail eu dadansoddiad annibynnol o'r data monitro presennol sydd ar gael yn ogystal â chyfweliadau cwmpasu. Felly, mae'r rhain yn ganfyddiadau sy'n codi o'r

gwerthusiad sydd i'w profi a'u mireinio wrth i wybodaeth ychwanegol gael ei chasglu gan yr ymchwil sylfaenol ddilynol, ond mae pum rhagdybiaeth bosibl bwysig yn y ddamcaniaeth i dynnu sylw atyn nhw:

1) Bydd creu lleoedd natur lle mae pobl yn byw a/neu'n gweithio ynddyn nhw yn arwain at werthfawrogi natur yn fwy — mae hyn yn seiliedig ar y syniad bod profiadau uniongyrchol a chadarnhaol gyda natur yn meithrin cysylltiad cryfach a gwerthfawrogiad o natur.
2) Os yw pobl yn gwerthfawrogi natur, byddan nhw (yn amodol ar oresgyn rhwystrau eraill fel amser, cyfyngiadau ariannol, ac ati) yn cefnogi ymdrechion i adfer natur ar raddfa leol a chenedlaethol ac yn cymryd camau unigol i gefnogi natur — mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion mewn seicoleg amgylcheddol lle mae gwerthfawrogi rhywbeth yn aml yn arwain at ymddygiad amddiffynnol (Christiaanse, Haartsen a Venhorst, 2023).
3) Bydd y broses o greu ac adfer lleoedd natur yn ennyn diddordeb unigolion a chymunedau, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol fel mwy o falchder bro, rhwydweithiau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn gwaith gwirfoddoli.
4) Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â natur yn gwella llesiant cymunedol, gan gynnwys manteision iechyd meddwl a chorfforol.
5) Bydd sicrhau bod lleoedd natur ar gael "ar garreg y drws" yn ei gwneud yn haws i bobl ymgysylltu â byd natur a'i gefnogi, ac i fanteisio ar gyfleoedd o'r fath.

Yn gyffredinol, mae'r rhagdybiaethau hyn yn rhesymol a sail dda iddyn nhw, ac maen nhw'n cael eu hategu gan dystiolaeth ac ymchwil sydd ar gael. Gall pobl ddatblygu cysylltiad cryfach â natur pan fyddan nhw'n cael profiadau uniongyrchol a chadarnhaol â natur, ac os bydd natur yn hygyrch i bawb, mae hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl elwa ohono, beth bynnag fo'u statws economaidd-gymdeithasol neu eu cyflwr o ran symud. Mae ymchwil yn dangos hefyd nad yw mynediad at natur yn gyfartal yn aml ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol (European Environment Agency, 2022). Gall cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol feithrin cydlyniant cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn, sy'n bwysig ar gyfer llesiant cymunedol (University of Kent and Belong Network, 2023). Mae sawl astudiaeth yn y DU yn cefnogi'r buddion a ddaw wrth dreulio amser ym myd natur. Er enghraifft:

- Canfu ymchwil gan y Sefydliad Iechyd Meddwl (2021) fod bron i hanner poblogaeth y DU wedi defnyddio mannau gwyrdd i ymdopi â straen y pandemig, gan dynnu sylw at rôl natur gydag iechyd emosiynol a chorfforol.
- Dangosodd astudiaeth a oedd yn cynnwys 20,000 o bobl fod y rheini a oedd yn treulio o leiaf 120 munud yr wythnos ym myd natur yn dweud bod eu hiechyd a'u lles yn well (White ac eraill, 2019).
- Canfu Canolfan Ewropeaidd yr Amgylchedd ac Iechyd Dynol ym Mhrifysgol Caerwysg (2023) hefyd fod dwy awr yr wythnos mewn mannau gwyrdd wedi gwella iechyd a lles seicolegol yn sylweddol.

Yn gyffredinol, un o'r canfyddiadau sy'n codi o'r gwerthusiad felly yw bod y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer LPfN yn seiliedig ar ragdybiaethau sy'n cyd-fynd ag ymchwil bresennol. Fodd bynnag, bydd llwyddiant y rhaglen — ac a yw'r rhagdybiaethau hyn yn wir yn achos penodol prosiectau a safleoedd LPfN — yn dibynnu ar weithredu effeithiol ac ymwneud y gymuned, a bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar hyn wrth iddo fynd rhagddo.

## 3.6 Rhwystrau a ffactorau galluogi

Mae nodi a deall rhwystrau a ffactorau galluogi allweddol yn hanfodol er mwyn deall sut y gellir cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Gall rhwystrau rwystro cynnydd ar wahanol gamau, o'r gweithredu cychwynnol i ba mor gynaliadwy yw'r canlyniadau yn yr hirdymor. Gall y rhwystrau hyn gynnwys ffactorau strwythurol, cymdeithasol ac unigol sy'n llesteirio effeithiolrwydd yr ymyriad. Y ffactorau galluogi yw'r rheini sy'n hwyluso ac yn cefnogi llwyddiant yr ymyriad. Gall y rhain gynnwys polisïau ategol, ymgysylltu â'r gymuned, a faint o adnoddau sydd ar gael.

Mae'r broses o ddatblygu'r Ddamcaniaeth Newid, a phwyso a mesur y model, yn awgrymu bod sawl rhwystr posib yn wynebu'r cynlluniau. Unwaith eto, dylid nodi bod y rhain wedi cael eu nodi gan y gwaith gwerthuso a drafodir yn Adrannau 4 i 8, gan gynnwys dadansoddi data eilaidd, y cyfweliadau â staff Llywodraeth Cymru a staff y cynllun, a datblygu'r Ddamcaniaeth Newid. Edrychir ar y rhwystrau hyn ymhellach yn yr ymchwil sylfaenol a fydd yn dilyn ac yn benodol yn y gwaith gyda'r cymunedau lle mae prosiectau wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Ddamcaniaeth Newid yn ogystal â'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu mai'r rhwystr posibl mwyaf nodedig a nodwyd hyd yma yw y gallai diffyg ymgysylltu neu ymwybyddiaeth yn y gymuned lesteirio cyfranogiad a chefnogaeth, gan gyfyngu ar effaith y rhaglen; os nad yw'r gymuned leol i brosiect yn cael gwybod am y gwaith sydd wedi'i wneud, nid ydynt yn debygol o ymgysylltu â'r prosiect, sy'n golygu na ellir cyflawni canlyniadau yn y gymuned. Gall cyfyngiadau o ran adnoddau, megis cyllid, adnoddau dynol, neu ddeunyddiau cyfyngedig, hefyd fod yn rhwystr nodedig sy'n cyfyngu ar gwmpas ac effeithiolrwydd y gweithgareddau.

Gall y ffyrdd y mae sefydliadau cyflawni'r cynllun a Llywodraeth Cymru yn gweithredu fod yn rhwystr hefyd. Er enghraifft, efallai na fydd dulliau ymgysylltu yn addas i garfannau penodol o gymdeithas; efallai y bydd angen dulliau ymgysylltu penodol iawn ar gymunedau gwahanol, neu efallai y byddan nhw'n elwa o'r dulliau penodol, er mwyn i hyn arwain at ddatblygu prosiect llwyddiannus. Mae angen i'r gwerthusiad archwilio a oes modd gwella'r ymgysylltu â chymunedau, a sut gellir gwneud hynny.

Gall heriau cydlynu ymysg rhanddeiliaid amrywiol arwain at oedi ac aneffeithlonrwydd wrth gyflawni prosiectau, gan effeithio ar lwyddiant cyffredinol prosiectau unigol a allai, gyda'i gilydd, effeithio ar lwyddiant cyffredinol y rhaglen. Gallai gwrthwynebiad i newid gan rai aelodau o'r gymuned hefyd fod yn her, gan effeithio ar dderbyn a gweithredu mentrau newydd. Mae gwneud lleoedd natur yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rheini sy'n cael trafferth symud, yn ystyriaeth bwysig arall.

Mae'n bwysig pwysleisio bod amrywiaeth sylweddol rhwng sut mae'r gwahanol gynlluniau sy'n rhan o LPfN fel rhaglen yn cael eu cyflawni. Bydd y 'ffactorau galluogi' o fewn cynlluniau yn amrywio felly. Mae ffactorau galluogi allweddol yn LPfN yn cynnwys cyfranogiad y swyddogion a'r cydlynwyr, gan gynnwys Swyddogion Prosiect KWT, cydlynydd Un Llais Cymru, a chydlynwyr LNP, sy'n hanfodol o ran trefnu a sbarduno'r gweithgareddau, er bod rhagdybiaeth hefyd y byddai llai'n digwydd pe na bai'r cymorth hwnnw'n bodoli. Mae gweithgareddau meithrin gallu, gan gynnwys gweithgareddau a ariennir gan y Cynllun Chwalu Rhwystrau a Chynllun LNP (fel y trafodir yn Adrannau 4 a 7 yn y drefn honno), wedi'u cynllunio hefyd i hwyluso camau datblygu sgiliau a sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae gweithgareddau LNP, er enghraifft, yn cynnwys hyfforddiant mewn rheoli cynefinoedd, cymorth i gael gafael ar gyllid, a meithrin cydweithio ymysg grwpiau cymunedol, busnesau a chyrff cyhoeddus. Mae rhwydwaith o gydlynwyr LNP yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod prosiectau a rhannu arferion da. Yn wahanol i gynlluniau eraill LPfN, fe wnaeth y Cynllun Chwalu Rhwystrau ddarparu cyllid i sefydliadau y gellid ei ddefnyddio i gyflogi staff, gan feithrin gallu'n uniongyrchol yn y sefydliadau hynny.

Un o'r canfyddiadau sy'n codi o'r gwerthusiad, yn seiliedig ar y trafodaethau gyda staff Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Ddamcaniaeth Newid yn ogystal â'r cyfweliadau â staff y cynllun, yw bod y sefydliad neu'r grŵp sy'n cael ei gefnogi (grwpiau cymunedol yn aml) yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflawni'r canlyniadau yn y Ddamcaniaeth Newid ac, felly, yn cyflawni'r effaith a fwriedir. Fel y trafodir ymhellach yn Adrannau 4 i 8 yr adroddiad, ystyrir bod eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen. Ar ben hynny, mae'r dystiolaeth a adolygwyd hyd yma yn awgrymu po fwyaf sefydledig, medrus a phrofiadol yw'r grŵp, y mwyaf tebygol yw hi y bydd y prosiect/gweithgarwch LPfN yn cael yr effaith a ddymunir. Fel y trafodwyd yn yr adrannau canlynol, y rheswm dros hyn yw bod y grwpiau hynny'n debygol o fod wedi sefydlu cysylltiadau a pherthnasoedd â'r gymuned leol a sefydliadau partner lleol.

Fodd bynnag, mae'n berthnasol nodi hefyd fod y dystiolaeth a aseswyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y grwpiau hyn hefyd yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad drwy fod yn rhan o raglen a chynlluniau LPfN. Fel y trafodir yn fanwl yn Adrannau 4 i 8 yr adroddiad hwn, roedd astudiaethau achos ar gyfer prosiectau a gefnogwyd gan gynlluniau LPfN yn nodi bod prosiectau wedi datblygu gwell cysylltiadau â'r gymuned leol ac wedi sefydlu cysylltiadau â phartneriaid newydd fel rhan o gyflawni eu prosiect LPfN. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol i gynlluniau LPfN, er bod angen ystyried natur y dystiolaeth y mae'r astudiaethau achos yn seiliedig arni, fel y trafodir yn yr adrannau dilynol.

Fel y trafodwyd yn flaenorol yn yr adran hon, mae gan y 'grŵp cymunedol' sy'n cymryd rhan rôl hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau llwyddiant prosiectau. Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad hwn (gan gynnwys staff y cynllun a sampl fach o grwpiau cymunedol a gefnogwyd) hefyd, lle roedd prosiectau/gweithgareddau LPfN wedi bod yn fwyaf llwyddiannus/effeithiol, fod y prosiect/gweithgarwch yn rhan o set ehangach o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal gan y grŵp cymunedol dan sylw. Mewn geiriau eraill, roedd y prosiect LPfN yn rhan o gynllun ehangach. Mae'r rhain yn

faterion y bydd y gwerthusiad yn edrych arnyn nhw fel rhan o gam nesaf yr ymchwil, sy'n cynnwys ymgysylltu â'r grwpiau a'r cymunedau lle mae prosiectau wedi cael eu cynnal.

## 3.7 Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r Ddamcaniaeth Newid ar gyfer LPfN yn cysylltu'r broses o greu mannau gwyrdd/natur â mwy o gefnogaeth gan unigolion a chymunedau i fyd natur. Mae'n awgrymu, drwy roi cyfleoedd i bobl ymgysylltu â byd natur, y byddan nhw'n fwy tebygol o'i werthfawrogi a chefnogi ymdrechion i'w ddiogelu a'i adfer. Dyma'r ddamcaniaeth sy'n sail i LPfN fel ymyriad, er bod angen cydnabod yr amrywiadau rhwng y cynlluniau sy'n rhan o'r rhaglen, gan gynnwys sut maen nhw'n cael eu cyflawni a'u hamcanion cyffredinol.

Gan ddefnyddio'r ymchwil sydd wedi'i chynnal hyd yma, mae proses Damcaniaeth Newid wedi nodi dau 'lwybr' sy'n dechrau o'r gweithgarwch o greu mwy o 'leoedd natur' lleol. Mae un llwybr yn rhoi sylw i fwy o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac yna gweithredu gan unigolion i gefnogi byd natur, ac mae'r llwybr arall yn canolbwyntio ar sut mae'r rhaglen yn bwriadu arwain at well llesiant cymunedol. Mae'n cydnabod bod canlyniadau'n cael eu creu cyn, yn ystod ac ar ôl gweithredu'r 'prosiect', gan bwysleisio bod LPfN yn fwy na dim ond ymyriad 'natur' a gall (os yw'r ddamcaniaeth yn gywir) gyfrannu at amrywiol feysydd polisi Llywodraeth Cymru.

Er ei bod yn bwysig cydnabod bod ymchwil yn mynd rhagddi, yn enwedig bod ymchwil sylfaenol fanylach gyda'r cymunedau lle mae prosiectau wedi cael eu cynnal i ddilyn, mae nifer o ragdybiaethau posibl wedi cael eu nodi a fydd yn cael eu harchwilio ymhellach. Efallai mai'r rhagdybiaeth hollbwysig yw y bydd creu lleoedd natur lle mae pobl yn byw a/neu'n gweithio ynddyn nhw yn golygu y byddan nhw'n rhoi mwy o werth ar fyd natur. Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaethau'n rhesymegol ac yn cael eu cefnogi gan ymchwil academaidd. Ond, bydd angen goresgyn y rhwystrau os ydym am wireddu'r ddamcaniaeth a nodir.

Nodwyd bod grwpiau cymunedol (ac unigolion allweddol yn y grwpiau hynny) yn ganolog i gyflawni'r canlyniadau a'r effaith a ddymunir gan y rhaglen LPfN; mae rhanddeiliaid a gyfwelwyd hyd yma (gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a staff y cynllun) yn ystyried bod eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad yn hanfodol er mwyn i brosiectau lwyddo. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth i'w archwilio ymhellach wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo drwy ymgysylltu â chymunedau lle mae prosiectau wedi cael eu cefnogi.

Bydd rhagor o ymchwil yn cael ei wneud yn awr i brofi'r damcaniaethau a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r Ddamcaniaeth Newid a chael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o effaith rhaglen LPfN. Mae hyn yn cynnwys casglu mwy o ddata ynghylch pwy sy'n cymryd rhan mewn prosiectau, sut mae rhwystrau wedi cael eu goresgyn, archwilio'r canlyniadau tymor hir, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau i asesu newidiadau mewn agweddau ac ymddygiad tuag at natur.

## 4. Cynllun Partneriaethau Natur Lleol

Nod y cynllun LNP yw adeiladu rhwydwaith adfer byd natur a fydd yn cynnwys pobl a chymunedau, yn ogystal â busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, mewn gweithredu ymarferol a chynllunio strategol ar gyfer Cymru iach, gydnerth a chyforiog o natur. Mae'n cynnwys partneriaethau sy'n cynrychioli pob un o'r awdurdodau lleol a'r awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru (25 i gyd). Mae aelodaeth pob LNP yn amrywio ond mae'n cynnwys amrywiol sefydliadau amgylcheddol, grwpiau cymunedol, busnesau yn y sector preifat, ac unigolion.

Mae gan bob LNP aelod o staff sy'n cydlynu'r bartneriaeth a'r cronfeydd (cydlynydd LNP). Mae pob LNP yn cael yr un faint o gyllid refeniw gan y rhaglen LPfN i gyfrannu at gostau'r swyddog hwnnw. Mae'r rolau hyn hefyd yn aml yn cael eu hariannu'n rhannol gan yr awdurdod lleol dan sylw i gyflawni rôl ehangach.

Mae cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i'r partneriaethau hyn gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio fformiwla a gyhoeddir yn flynyddol sy'n seiliedig ar niferoedd y boblogaeth a 'chlystyru' poblogaethau (hynny yw, nifer y trefi, pentrefi, a dinasoedd yn y sir). Mae defnyddio'r dull hwn yn sicrhau bod y cynllun yn rhoi sylw i 'Gymru gyfan'. Dyrennir yr un swm o gyllid cyfalaf i Bartneriaethau Natur Lleol awdurdod y parc cenedlaethol ag a ddyrennir i Bartneriaethau Natur Lleol yr awdurdod lleol sy'n cael y swm lleiaf o gyllid drwy'r fformiwla flynyddol. Mae'r Partneriaethau yn defnyddio'r cyllid cyfalaf i roi 'Cynllun Cyflawni' ar waith sy'n cynnwys sawl prosiect. Hefyd, ceir 'Cronfa Her' ar wahân (a ariennir hefyd gan gyfalaf) ar gyfer prosiectau a chynlluniau peilot cydweithredol neu arloesol, sy'n broses grant cystadleuol blynyddol ac ar gael i'r Partneriaethau Natur Lleol.

Darperir cyllid refeniw ychwanegol hefyd i gefnogi'r Partneriaethau Natur Lleol i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Adran 6, fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio hefyd i weithio tuag at nod bioamrywiaeth '30x30' sy'n ceisio gwarchod o leiaf 30% o ardaloedd y môr, dŵr croyw a thir ar gyfer byd natur erbyn 2030 [troednodyn 3]. Mae gan bob partneriaeth y pŵer i wneud penderfyniadau gweithredol dros ei chronfa gyllid ei hun a'r hyn mae am ei gyflawni. Rôl y WCVA yw:

- rheoli proses y panel sy'n cymeradwyo cynlluniau cyflawni'r Partneriaethau Natur Lleol ochr yn ochr â cheisiadau ac asesiadau'r gronfa her.
- hwyluso'r gwaith o gyflawni'r cynllun (gan gynnwys rheoli hawliadau, diwydrwydd dyladwy, talu, ac adrodd).

**Troednodiadau**

[3] Mae nod bioamrywiaeth '30x30' yn gynllun byd-eang sy'n ceisio gwarchod 30% o ardaloedd môr a thir y Ddaear erbyn 2030. Mae'r targed hwn yn rhan o Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (GBF), y cytunwyd arno yn Uwchgynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15) ym mis Rhagfyr 2022.

- a darparu data monitro a hawliadau i Lywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd adrodd a rheoli rheolaidd.

Ar ben hynny, mae'n bwysig nodi y gall Partneriaethau Natur Lleol ddod o hyd i gyllid i weithredu prosiectau o ffynonellau ar wahân i'r rhaglen LPfN.

## 4.1 Gweithgareddau a wnaed a dangosyddion perfformiad

Mae dros £32.5m o gyllid LPfN wedi cael ei ymrwymo i'r partneriaethau hyn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025, sy'n golygu mai dyma'r cynllun mwyaf yn y rhaglen.

Mae rôl y Partneriaethau yn eang ac, yn ogystal â datblygu a chyflawni prosiectau, mae'n cynnwys datblygu rhwydweithiau lleol a 'meithrin gallu' ymysg sefydliadau a rhanddeiliaid lleol. Un o weithgareddau allweddol y partneriaethau felly yw hwyluso'r bartneriaeth yn eu hardal gyda rhanddeiliaid, sefydliadau amgylcheddol, a grwpiau cymunedol lleol.

O ran prosiectau, roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar y data sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd ariannol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, a rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Dros y tair blwyddyn ariannol hynny:

- cafodd 91 o brosiectau eu cyflawni fel rhan o Gynlluniau Cyflawni LNP (yn aml yn cynnwys nifer o brosiectau llai ynddynt)
- cafodd 34 o brosiectau eu cefnogi gan y Gronfa Her.

Mae'r allbynnau a gofnodwyd ar gyfer y tair blwyddyn ariannol (cyfansymiau cronnus) yn cynnwys:

- 178 lle gwyrdd newydd wedi'u creu (788 hectar)
- 2,762 o asedau cyfalaf wedi'u creu (769 hectar)
- 831 o safleoedd yn mabwysiadu arferion torri gwair sy'n ystyriol o fioamrywiaeth (648 hectar)
- 363 o safleoedd plannu coed lleol gan gynnwys coed stryd, perllannau, a choetiroedd bach (278 hectar).

Er mwyn cymharu, mae'r 788 hectar o fannau gwyrdd a gafodd eu creu yn cyfateb yn fras i 1,100 o gaeau pêl-droed safonol.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig at ddiben asesu fel rhan o'r gwerthusiad hwn, ac mae'r allbynnau o ran y gwirfoddolwyr a adroddwyd ar gyfer y tair blynedd ariannol wedi'u cynnwys (cyfansymiau cronnus):

- 4,332 o wirfoddolwyr unigryw wedi cymryd rhan
- 26,455 o oriau wedi'u cyfrannu (sy'n cyfateb i tua 3,300 diwrnod gwaith)
- 1,425 o wirfoddolwyr yn dweud bod eu llesiant yn well o ganlyniad i fod yn rhan o brosiect (33% o gyfanswm y gwirfoddolwyr) – er nad yw'r data monitro'n nodi sut mae'r canlyniad hwn wedi cael ei gyflawni na'i fesur.

Dyma allbynnau prosiectau cymunedol penodol yr adroddwyd amdanyn nhw:

- 96 o gyfleoedd i dyfu bwyd yn y gymuned, gyda safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned yn cynnwys darparu rhandiroedd
- 122 o berllannau cymunedol, yn ffermio ffrwythau brodorol.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar raddfa ac amrywiaeth prosiectau yn awgrymu y gallai'r Partneriaethau Natur Lleol effeithio'n sylweddol ar wella mynediad at natur yn ogystal â bioamrywiaeth ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r allbynnau hyn yn ymwneud â chreu neu wella mannau gwyrdd sy'n rhoi cyfle i wella mynediad, yn hytrach na thystiolaeth o faint sy'n manteisio ar y mynediad hwnnw, sy'n hanfodol o ran deall effaith y rhaglen.

Byddai modd dosbarthu'r gweithgarwch a gyflawnir drwy waith prosiect rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 a rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, i un neu fwy o dri phrif gategori:

- Adfer a Chreu Cynefinoedd: Fe wnaeth y Partneriaethau Natur Lleol gyflawni amrywiaeth o waith cyfalaf i wella amrywiaeth o fathau o gynefinoedd. Roedd y rhain yn cynnwys gwella bioamrywiaeth drwy greu cynefinoedd a rheoli ecosystemau. Nod y mentrau hyn oedd cefnogi mannau gwyrdd lleol a sicrhau eu cynaliadwyedd. Roedd y rhain hefyd yn cynnwys newidiadau i arferion torri gwair drwy waith datblygu mewnol yn yr awdurdodau lleol lle mae Partneriaethau Natur Lleol yn cael eu cynnal.
- Ymgysylltu â'r Gymuned a Mynediad at Natur: roedd y prosiectau hyn yn rhoi pwys ar feithrin cysylltiad rhwng cymunedau lleol a byd natur, a gwella mynediad drwy seilwaith. Cafodd prosiectau o'r fath eu cynllunio i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion amgylcheddol ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â natur. Ar ben hynny, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu ar draws Partneriaethau Natur Lleol, fel cefnogi gweithgareddau ymgysylltu drwy erddi/rhandiroedd cymunedol a gweithio gydag elusennau iechyd meddwl i ddatblygu planhigfa goed gymunedol.
- Datblygu Seilwaith Gwyrdd: roedd ffocws ar ehangu seilwaith gwyrdd, gwella mynediad i ardaloedd naturiol, ac integreiddio natur mewn cynllunio trefol drwy, er enghraifft, newidiadau i arferion torri gwair mewn awdurdodau lleol. Gweithiodd y prosiectau hyn tuag at greu amgylcheddau trefol mwy cynaliadwy drwy ddatblygu a chynnal mannau gwyrdd.

Wrth adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am weithredu prosiectau hefyd, nodwyd nifer o dueddiadau yn y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal:

- Cynnwys y Gymuned: roedd disgrifiadau ac adroddiadau'r prosiect yn cyfeirio'n rheolaidd at bwysigrwydd cynnwys cymunedau lleol mewn ymdrechion gwarchod natur. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod ymdrechion cadwraeth yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd ag anghenion lleol. Fodd bynnag, nid oedd y data sydd ar gael yn dangos yn glir yr effaith o gynnwys cymunedau ar agweddau tuag at warchod byd natur a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn dangos bod angen archwilio mwy i

nodi ffyrdd o gofnodi’r effaith hon, ac mae’r gwerthusiad hwn yn ceisio gwneud hynny.

- Dulliau Lleol Pwrpasol: mae dogfennau’r prosiect yn nodi sut roedd prosiectau’n addasu i anghenion daearyddol ac ecolegol pob ardal, yn ogystal â chyd-destun y gymuned leol a sefydliadau partner. Unwaith eto, mae angen dangos effeithiolrwydd y dull gweithredu a’r effaith hirdymor, sy’n rhywbeth y mae’r gwerthusiad yn edrych arno wrth iddo fynd rhagddo.

## 4.2 Mathau o ymgysylltu â’r gymuned a’r effaith

Roedd llawer o Bartneriaethau Natur Lleol yn adrodd am adborth cadarnhaol gan gymunedau, gyda mwy o ymgysylltu â phrosiectau natur lleol yn ogystal â gwerthfawrogiad ohonynt, mewn adroddiadau chwarterol ar y cynllun a gynhyrchwyd gan WCVA ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn benodol, adroddwyd bod prosiectau’n ceisio dod â chymunedau at ei gilydd a meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a balchder. Yn ogystal, yn ystod cyfweliadau, nododd saith o'r naw swyddog LNP y manteision cymdeithasol a lles a welwyd ganddyn nhw, gan gynnwys rhoi ymdeimlad o bwrpas i wirfoddolwyr, gwella iechyd meddwl, a gwella cydlyniant cymunedol.

Rhoddodd Partneriaethau Natur Lleol ddulliau ar waith sydd nid yn unig yn ceisio mynd i’r afael â materion amgylcheddol ond sydd hefyd yn ceisio ymgysylltu â’r gymuned leol a’i haddysgu ar yr un pryd. Er enghraifft, mae Partneriaeth Natur Lleol Sir Gaerfyrddin yn defnyddio ‘Commonplace’, llwyfan digidol ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned sydd wedi’i ddylunio i hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau a’r cyhoedd, ar gyfer prosiectau cynllunio trefol, seilwaith, a datblygu cymunedol.

Fodd bynnag, mae effaith prosiectau a’r Cynllun LNP yn gyffredinol ar lefel gymunedol yn aneglur, oherwydd diffyg data cynhwysfawr yn bennaf. Er bod rhai prosiectau unigol wedi nodi llwyddiant o ran gwella bioamrywiaeth a meithrin ymgysylltiad â’r gymuned, nid yw’r dystiolaeth yn ddigon manwl i asesu’n effeithiol beth yw effaith y mentrau hyn ar y cyd ar lefel Cynllun LNP. Felly, o’r dystiolaeth sydd ar gael, nid yw’n glir sut mae gweithgareddau LNP yn siapio mathau o ymddygiad cymunedol hirdymor, a yw’r manteision o ran bioamrywiaeth yn cael eu cynnal dros amser, a sut mae’r ymdrechion hyn yn cyfrannu at amcanion amgylcheddol rhanbarthol ehangach.

Canfu’r cyfweliadau â chydlynwyr LNP fod y partneriaethau ar draws gwahanol ranbarthau’n wynebu amrywiaeth o heriau sy’n effeithio ar eu gallu i ymgysylltu’n effeithiol â chymunedau. Wrth ddadansoddi’r heriau hyn, tynnir sylw at themâu cyffredin a rhwystrau unigryw y mae pob LNP wedi dod ar eu traws — gweler Adrannau 4.2.3 a 4.2.4. Dim ond yn fras yr ymchwiliwyd i’r materion hyn hyd yma, a byddan nhw’n cael eu hystyried ymhellach wrth i’r gwerthusiad symud ymlaen i’w gam nesaf.

### 4.2.1 Y pwyslais ar gyllid cyfalaf

Un o’r heriau cyson a nodwyd gan bron pob un o’r naw cydlynydd LNP a gyfwelwyd oedd pwysoliad y proffil cyllid tuag at gyllid cyfalaf, gydag incwm refeniw yn gyfran lai o’r cyllid sydd ar gael iddyn nhw. Er bod hyn wedi caniatáu buddsoddiad sylweddol mewn offer a chyflawni gwaith cyfalaf, nodwyd yr anhyblygrwydd yr oedd hyn yn ei achosi. Pe byddai

modd ailgydbwyso’r proffil hwn, gallai ddatblygu mwy o gapasiti staff i gyflawni gwaith ymgysylltu â’r gymuned.

Mae’r broblem hon yn cael ei gwaethygu rhywfaint gan ddiffyg cyllid tymor hir ar gyfer cynnal a chadw safleoedd. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod hyn yn effeithio ar y gallu i gynllunio a gweithredu strategaethau hirdymor yn effeithiol, gan arwain at ddiffyg parhad prosiectau a diffyg ymgysylltu parhaus â’r gymuned yn ogystal â chynnal safleoedd. Heb gyllid ar gyfer cynnal a chadw, roedd pryder hefyd ymysg y rhai a gyfwelwyd y gallai Partneriaethau Natur Lleol ei chael yn anodd hefyd i ddenu a chadw staff medrus, ac y byddai hyn yn tanseilio eu cynlluniau ymhellach.

#### 4.2.2 Amserlenni byr ar gyfer prosiectau

Yn ystod cyfweliad dywedodd un cydlynydd LNP yn benodol fod amserlenni prosiect byr yn rhwystr rhag ymgysylltu effeithiol â’r gymuned a chael canlyniadau cynaliadwy, er bod yr amser sydd ei angen i ddatblygu perthynas â rhanddeiliaid a chymunedau wedi cael ei drafod gan gydlynwyr LNP a gyfwelwyd yn fwy cyffredinol. Dywedwyd bod amserlenni cyfyngedig yn cyfyngu ar faint roedd y gymuned yn gallu cyfrannu ac ar ba mor drylwyr oedd y broses o weithredu’r prosiect, gan danseilio’r camau a gymerwyd yn y pen draw.

#### 4.2.3 Ymgysylltu â chymunedau amrywiol

Dywedodd y staff LNP a gyfwelwyd fod ymgysylltu â sbectrwm eang o aelodau'r gymuned yn her, yn enwedig mewn ardaloedd â phroffiliau demograffig amrywiol. Disgrifiodd bron pob un o’r staff LNP a gyfwelwyd yr heriau o ran cysylltu â’r gymuned leol (megis gwahanol grwpiau diwylliannol, economaidd-gymdeithasol ac oedran a nodwyd) ynghyd â rhwystrau fel gwahaniaethau o ran iaith, lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o’r amgylchedd, a blaenoriaethau gwahanol ymysg gwahanol rannau o’r gymuned.

#### 4.2.4 Cynnal a chadw safleoedd a phrosiectau

Yn y cyfweliadau, cyfeiriodd pump o’r ymatebwyr at integreiddio timau bioamrywiaeth a thimau cynnal a chadw tiroedd, gan dynnu sylw at bwysigrwydd hyn i lwyddiant prosiectau a’i effaith ar y llwyddiant hwnnw. Nodwyd bod integreiddio’r timau hyn yn hwyluso’r gwaith o reoli a dyrannu adnoddau’n haws. Drwy gael timau bioamrywiaeth a chynnal a chadw tiroedd yn gweithio yn yr un maes gwasanaeth, roedd cydlynu ymdrechion yn fwy effeithlon ac yn sicrhau bod nodau bioamrywiaeth ac anghenion cynnal a chadw yn cael eu diwallu. Roedd hyn yn caniatáu dull mwy cyfannol o reoli mannau gwyrdd, lle roedd ystyriaethau ecolegol yn cael eu hymgorffori’n rhwydd mewn gweithgareddau cynnal a chadw arferol.

Roedd yr integreiddio hefyd yn cael ei weld fel ffordd o wella pa mor amlwg a hygyrch yw’r timau LNP. Drwy gydweithio’n agos, roedd y timau’n gallu ymgysylltu’n fwy effeithiol â’r gymuned a rhanddeiliaid eraill, gan hyrwyddo gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth yn ogystal â’r rôl cynnal a chadw i’w gefnogi.

Daeth ymgysylltu â’r gymuned i’r amlwg fel thema allweddol, gyda chwe ymatebydd yn trafod creu cynlluniau rheoli a chynnwys grwpiau cymunedol yn y gwaith o gynnal a chadw mannau gwyrdd. Roedd yr ymgysylltu hwn yn aml yn bont rhwng y gymuned a chynghorau lleol, gan feithrin cydweithio a rhannu cyfrifoldeb.

Soniodd pedwar o'r ymatebwyr fod cyllid a chefnogaeth barhaus yn ffactorau hollbwysig sy’n galluogi prosiectau a gweithgareddau grwpiau gwirfoddol sydd eisoes ar waith, gan sicrhau bod y gymuned yn cael ei chynnwys a bod gwaith cynnal a chadw yn digwydd dros yr hirdymor. Nodwyd heriau eraill hefyd, yn enwedig mewn perthynas â diffyg cyllid mewnol a chymhlethdod gweithio gyda nifer o adrannau, fel y nodwyd gan dri ymatebydd. Fodd bynnag, dywedwyd bod cydweithio â phartneriaid allanol a sefydliadau lleol angerddol yn helpu i liniaru’r heriau hyn, gan sicrhau ymdrechion cynnal a chadw parhaus.

Bu pedwar o’r ymatebwyr yn trafod dirnadaeth y cyhoedd ac arferion rheoli ystadau, gyda newidiadau fel llai o dorri gwair a thechnegau ‘torri a chasglu’ yn cael eu rhoi ar waith. Wrth i dimau LNP fod yn fwy amlwg a hygyrch o fewn yr awdurdodau lleol lle roedden nhw wedi’u lleoli, roedd hyn hefyd wedi hybu cydweithio a, thrwy gydweithio â thimau eraill yn y cyngor, ymgysylltu â’r gymuned.

## 4.3 Casgliad a’r camau nesaf

Mae’r data sydd ar gael yn awgrymu bod llawer iawn o weithgarwch wedi digwydd drwy brosiectau a gefnogwyd drwy’r Cynllun LNP i greu mannau gwyrdd, datblygu asedau cyfalaf newydd, ac ennyn diddordeb gwirfoddolwyr. Mae’r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar effaith prosiectau ar unigolion a chymunedau, ac, o’r safbwynt hwnnw, mae diffyg data yn llesteirio asesiad cynhwysfawr ar hyn o bryd. Mae’r data sydd ar gael yn dangos bod gweithgarwch perthnasol yn digwydd, ond nid yw’r dystiolaeth ar raddfa, effeithiolrwydd a chanlyniadau’r gweithgarwch hwnnw ar gael. Ar ben hynny, nid yw’r dystiolaeth sydd ar gael yn ddigon manwl i roi sylwadau ar y dystiolaeth hon ar lefel Cynllun LNP.

Bydd y gwerthusiad yn ceisio mynd i’r afael â hyn yn ystod y cam nesaf, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â sampl o’r prosiectau sydd wedi cael eu cyflawni. Y bwriad fydd casglu tystiolaeth fwy cyson ac annibynnol ar y canlyniadau i’r unigolion a’r cymunedau dan sylw.

# 5. Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol

Cafodd y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol ei gyflwyno yn 2023, a’i fwriad yw meithrin gallu rhanddeiliaid mewn cymunedau arfordirol, gan gydnabod pwysigrwydd ardaloedd arfordirol ar gyfer adfer natur a llesiant cymunedol. Rheolir y cynllun ochr yn ochr â Chynllun LNP gan WCVA, a’i nod yw mynd i’r afael â'r bylchau mewn cyllid ar ôl ymadael â’r UE drwy ddod â’r partneriaid yn ardaloedd arfordirol Cymru at ei gilydd i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd, adfer cynefinoedd naturiol, a chryfhau rhwydweithiau lleol ar gyfer gweithredu cynaliadwy. Mae’r cynllun hefyd yn ceisio cryfhau’r cysylltiad rhwng cymunedau arfordirol lleol a byd natur, gan helpu pobl i ddeall y camau y gallan nhw eu cymryd i wneud gwahaniaeth.

Roedd gan y cynllun gyllideb flynyddol o £500,000 ar gael ar gyfer prosiectau o bum mis neu fwy, gydag isafswm gwerth o £20,000. Rhaid i’r prosiectau a ariennir gael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025. Gwnaed ceisiadau drwy’r Partneriaethau Natur Lleol, gyda phartneriaid yn gallu gwneud cais drwy weithio gyda’r cydlynydd LNP perthnasol. Mae’r Partneriaethau yn gweithredu fel ‘ymgeiswyr arweiniol’ am y cyllid, gan gydlynu ymdrechion rhwng gwahanol randdeiliaid.

Mae’n bwysig nodi bod y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol wedi cael ei gyflwyno ar ôl elfennau eraill y rhaglen. O’r herwydd, mae llai o brosiectau a llai o ddata ar gael i’w hasesu mewn perthynas ag allbynnau a chanlyniadau’r cynllun hyd yma, fel y trafodir isod.

## 5.1 Dosbarthu cyllid a themâu

Yn ystod oes y cynllun, mae ychydig dros £800,000 o gyllid wedi cael ei ddyrannu i gyfanswm o 11 prosiect a roddwyd ar waith gan bump o’r Partneriaethau Natur Lleol, fel y dangosir yn y tabl isod. Roedd rhai o’r prosiectau hyn wedi’u cwblhau ac roedd rhai yn mynd rhagddynt adeg dadansoddi’r adroddiad hwn.

**Tabl 5.1: Dosbarthiad prosiectau a ariennir gan y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol a chyllid fesul LNP**

| LNP | Nifer y prosiectau | % o’r holl brosiectau | Cyllid a ddarparwyd | % o’r holl gyllid a ddarparwyd |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 5 | 45.5% | £254,980 | 31.8% |
| APC Arfordir Sir Benfro | 3 | 27.3% | £224,570 | 28.0% |
| Sir Fynwy | 1 | 9.1% | £122,582 | 15.3% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 9.1% | £108,036 | 13.5% |
| Bro Morgannwg | 1 | 9.1% | £91,525 | 11.5% |

Ffynhonnell: Data monitro cynllun Llywodraeth Cymru

Mae'r 11 prosiect wedi'u dosbarthu ymhlith pump LNP ac maen nhw'n cynnwys gweithgareddau yng ngogledd, de-ddwyrain, a gorllewin Cymru. Fodd bynnag, mae nifer o Bartneriaethau Natur Lleol arfordirol lle na fu unrhyw brosiectau. Ar ben hynny, mae wyth o'r 11 prosiect ar Ynys Môn ac yn Sir Benfro, lle mae bron i 60% o'r cyllid a ddosbarthwyd wedi cael ei ddyrannu. Derbyniodd pedwar o'r prosiectau dros £100,000 o gyllid, gyda'r mwyaf mewn termau ariannol yn derbyn ychydig dros £160,000 o gyllid. Ar gyfartaledd, derbyniodd prosiectau ychydig dros £70,000 yr un.

Mae'r prosiectau'n cynnwys ystod amrywiol o bartneriaid sy'n gweithio gyda chydlynydd yr LNP ar gyfer yr LNP dan sylw i gyflawni'r prosiect. Mae'r partneriaid yn cynnwys cyrff llywodraeth, sefydliadau nid-er-elw, cwmnïau buddiannau cymunedol (CIC), ac ymddiriedolaethau natur. Mae prosiectau hefyd yn cynnwys sefydliadau amgylcheddol a chadwraethol fel Ymddiriedolaeth Natur Gwent ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn ogystal â sefydliadau arbenigol fel Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfeydd Culfor Menai ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru.

Ar sail y data ar y prosiectau a ddarparwyd mewn adroddiadau monitro cynlluniau, mae'r prosiectau'n ceisio cyflawni amrywiaeth o nodau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a gwytnwch amgylcheddau arfordirol a morol.

Mae pum prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar wella capasiti ac ymgysylltiad cymunedol. Maen nhw'n ceisio grymuso cymunedau lleol drwy hyfforddi, cefnogi a chymryd rhan mewn gweithgareddau arfordirol a morol, gyda'r nod o sicrhau bod trigolion yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o stiwardio eu hadnoddau naturiol.

Mae disgrifiad o'r pum prosiect yn pwysleisio pa mor bwysig yw hyrwyddo twf cynaliadwy ochr yn ochr ag adfer byd natur. Bwriad yr ymdrechion hyn yw sicrhau bod datblygu economaidd yn mynd law yn llaw â chadwraeth amgylcheddol, gan feithrin agwedd gytbwys at dwf sydd o fudd i'r economi a'r ecosystem. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel prosiectau adfer morwellt a datblygu bioblastigau, sydd ill dau'n arloesol o ran eu dull gweithredu ac â'r potensial i fod o fudd i'r amgylchedd.

Mae dau brosiect sy'n cael eu cyflawni ar Ynys Môn yn ceisio gwella dealltwriaeth y cyhoedd o amgylcheddau morol a'u harwyddocâd. Drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cefnfor, nod y mentrau hyn yw meithrin cysylltiad dyfnach rhwng pobl a'r cefnfor, ac annog ymddygiad cyfrifol ac ymdrechion cadwraeth.

Mae thema 'gwytnwch ecolegol a chymunedol' yn amlwg mewn pedwar prosiect mewn dwy LNP. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar gryfhau gallu ecosystemau a chymunedau i wrthsefyll ac addasu i newidiadau yn yr amgylchedd. Drwy geisio sicrhau mwy o wytnwch, drwy weithgareddau allgymorth ac addysgol, gwyddoniaeth dinasyddion, a chyngor/arbenigedd penodol i hwyluso gwaith adfywio, mae'r mentrau hyn yn gobeithio helpu i sicrhau bod systemau naturiol a dynol yn gallu ffynnu yn wyneb heriau.

Mae prosiectau hefyd yn anelu at 'wella mesurau gwarchod a rheoli'r môr'. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgyrchoedd llais cymunedau i wella ymdrechion cadwraeth forol, gan sicrhau bod amgylcheddau morol yn cael eu diogelu a'u rheoli'n effeithiol. Yn olaf, mae prosiect yn Sir Benfro yn tynnu sylw at bwysigrwydd adfer

morwellt a bioamrywiaeth drwy arolygon bioamrywiaeth ac ymdrechion adfer pwrpasol, gan bwysleisio'r angen i warchod cynefinoedd morol hanfodol.

## 5.2 Dangosyddion Perfformiad

Mae data ar gyfer y saith dangosydd canlynol yn cael eu casglu ar gyfer prosiectau a ariennir gan y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol:

- Mwy o gefnogaeth i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur
- Ymrwymiad i wella'r gwaith o reoli'r amgylchedd morol
- Cefnogi a hyrwyddo prosiectau carbon glas
- Mwy o ddealltwriaeth ymysg y cyhoedd o faterion morol
- Mwy o gapasiti ar gyfer cyfleoedd dyframaethu, twristiaeth a hamdden cynaliadwy
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer y cadwyni cyflenwi bwyd môr lleol
- Cyflawni 'amcanion pysgodfeydd'.

Mae'n bwysig nodi nad oes diffiniad penodol ar gyfer y dangosyddion hyn, a'r prosiectau eu hunain fydd yn eu dehongli. Felly, nid yw'n bosibl cyfuno'r niferoedd a adroddir gan y prosiectau i ddangos perfformiad y cynllun. Fodd bynnag, mae'r rhestr yn rhoi syniad o'r data y gellir disgwyl i brosiectau a ariennir eu darparu, er y bydd angen adolygu prosiectau'n unigol i asesu'r hyn y mae'r cynllun wedi'i gyflawni.

## 5.3 Astudiaethau achos

Darparwyd astudiaethau achos byr ar gyfer dau brosiect a gefnogwyd gan y cynllun, sy'n rhoi cipolwg pellach ar gyflawni'r prosiectau hynny. Roedd y ddau brosiect yn mynd rhagddynt ar yr adeg y cafodd yr astudiaethau achos eu cynhyrchu.

Roedd un o'r astudiaethau achos ar gyfer prosiect a oedd yn ceisio gwella cynefinoedd mewn ardaloedd morol, dŵr croyw a glannau afonydd [troednodyn 4] ac addysgu'r cyhoedd am ddulliau cadwraeth hefyd. Roedd y prosiect wedi ymgysylltu ag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys dylunwyr apiau, dylunwyr gwefannau, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r gymuned leol. Lansiwyd y prosiect gyda sesiynau glanhau afonydd/dŵr a oedd yn cynnwys padlfyrddio ar eich sefyll a sesiynau glanhau ar droed. Ar ben hynny, cafodd grŵp ymroddedig o gadwraethwyr dŵr croyw eu hyfforddi fel rhan o'r prosiect.

Cynigiwyd hyfforddiant achrededig i'r gymuned leol hefyd. Enillodd pedwar o'r cyfranogwyr gymhwyster Achubwr Bywyd Dŵr Agored, a chafodd dros 12 o gyfranogwyr eu hyfforddi i fod yn hyfforddwyr snorcel achrededig. Arweiniodd hyn at arolygon snorcelu diogel a rhoi sgiliau a chyfleoedd i'r gymuned leol wella eu cyflogadwyedd.

Roedd y prosiect arall, lle roedd astudiaeth achos ar gael ar ei gyfer, yn darparu cyllid i fforwm partneriaeth a oedd yn dod â rhanddeiliaid, arbenigwyr a sefydliadau at ei gilydd a oedd yn ymroi i waith cadwraeth a datblygu ardal yn gynaliadwy. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad cyd-ddylunio cymunedol mawr fel rhan o'r prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys

**Troednodiadau**

[4] Mae ardal glannau afon yn cyfeirio at y rhyngwyneb rhwng tir ac afon neu nant.

siaradwyr gwadd a gweithdai, gan ddenu dros 60 a 70 o fynychwyr a gymerodd ran weithredol ac a roddodd adborth amrywiol. Lluniwyd adroddiad effaith, gan gasglu gwybodaeth allweddol ac amlinellu camau dilynol ar gyfer y fforwm. Mewn seminar yn y brifysgol leol, codwyd rhagor o ymwybyddiaeth a meithrin deialog ar gadwraeth amgylcheddol.

Mae’r astudiaeth achos yn nodi bod y fforwm, yn ei flwyddyn gyntaf, wedi cyrraedd cerrig milltir megis ymsefydlu fel sefydliad cynaliadwy, cynnal ymarferion cwmpasu ar gyfer lleihau allyriadau carbon, a gwella ansawdd dŵr yn ogystal â gwella dealltwriaeth y cyhoedd, er na ddarparwyd unrhyw fetrigau i gefnogi’r cyflawniadau hyn. Lansiwyd gwefan y fforwm, gan ddarparu gwybodaeth a llwyfan ar gyfer cyfraniadau cyhoeddus. Dywedwyd bod gweithgareddau’r fforwm wedi sefydlu llwyfan cydweithredol ar gyfer cynnwys y gymuned. Roedd cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau a’r gymuned yn rhannu prosiectau ar y llwyfan, gan dynnu sylw at feysydd sy’n gorgyffwrdd a nodi anghenion ymchwil.

## 5.4 Casgliad a’r camau nesaf

Nod y cynllun Arfordirol yw gwella capasiti mewn cymunedau arfordirol yng Nghymru. Mae wedi ariannu 11 o brosiectau ers ei sefydlu yn 2023, ac mae pob un ohonynt yn dod i ben cyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae’r prosiectau hyn yn cael eu rhoi ar waith mewn pum ardal LNP, sy’n golygu bod bylchau yn ‘ardaloedd arfordirol’ Cymru lle mae’r cynllun yn weithredol.

O ran canlyniadau, prin yw’r data sydd ar gael ar hyn o bryd gan fod prosiectau’n dal i fod ar waith. Fodd bynnag, mae’r ddwy astudiaeth achos sydd ar gael yn awgrymu bod prosiectau wedi llwyddo i ddod â phartneriaid a rhanddeiliaid amrywiol at ei gilydd, ac yn tynnu sylw at rai o’r gweithgareddau amgylcheddol a chadwraeth a gyflawnwyd. Ond, nid yw’r canlyniadau yn sgil y gweithgareddau hynny yn glir.

Yn ei gam nesaf, bydd y gwerthusiad yn ymgysylltu â’r prosiectau sydd wedi cael eu hariannu i archwilio’r dystiolaeth ar ganlyniadau ac effeithiau’r prosiect sy’n dod i’r amlwg, a’r gweithgareddau a gynhaliwyd. Bydd hyn yn cynnwys archwilio ymhellach sut mae prosiect y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol yn wahanol i’r rhai sydd wedi cael eu cefnogi gan elfennau eraill o’r rhaglen LPfN, gan adeiladu ar ganfyddiadau’r Ddamcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen a drafodir yn Adran 3.

# 6. Cronfa Grantiau Cyfalaf Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF)

Nod Cronfa Grantiau Cyfalaf NLHF oedd galluogi cymunedau i adfer a gwella byd natur yng Nghymru. Roedd yn darparu grantiau cyfalaf o hyd at £250,000, gan dargedu cymunedau yn y 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi prosiectau tyfu bwyd yn y gymuned a sefydliadau neu grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig amrywiol. Roedd yn ofynnol i brosiectau allu cynnal yr ased yn y tymor hir, ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu cynllun cynnal a chadw fel dogfen ategol ar gyfer unrhyw gais am gyllid. Nid oedd modd defnyddio'r cyllid ar gyfer costau rhedeg sefydliadau nac ar gyfer costau cynnal a chadw arferol asedau presennol. Cafodd y cynllun ei gau i geisiadau ym mis Gorffennaf 2024 ac roedd yn dal ar gau adeg ysgrifennu'r adroddiad ym mis Chwefror 2025.

## 6.1 Y prosiectau a gefnogwyd

Ariannodd y cynllun 41 o brosiectau rhwng 2020 a 2024, cyfanswm o £2.18 miliwn, gyda grant o £53,000 ar gyfartaledd. O'r rhain, derbyniodd y rhan fwyaf (38 allan o 41) grantiau a oedd yn amrywio o £10,000 i £100,000, a dyfarnwyd grantiau i dri phrosiect yn y grŵp uwch o £100,000 i £250,000. Darparodd dau ddeg dau o'r prosiectau gyllid i'r sector cyhoeddus, ac 19 i fudiadau trydydd sector. Fodd bynnag, dyfarnwyd tri grant gwerth uchel i'r trydydd sector, a oedd yn golygu bod prosiectau'r trydydd sector, mewn termau ariannol, yn derbyn cyfran uwch o gyllid na phrosiectau'r sector cyhoeddus (54.5% trydydd sector a 45.5% sector cyhoeddus).

Rhoddwyd dau o'r grantiau (gwerth £250,000 yr un ac ym mlwyddyn ariannol 2022 i 2023) i Cadwch Gymru'n Daclus (KWT) i ddarparu eu 'pecynnau datblygu gerddi natur' (un ar gyfer de Cymru ac un ar gyfer gogledd Cymru). Roedd hyn yn cysylltu cynllun cyfalaf NLHF â Chynllun Pecynnau Cymunedol LPfN sy'n cael ei ddarparu gan KWT (fel sy'n cael ei drafod yn Adran 8). Gwnaed hyn gan KWT i ymestyn y gwaith o ddarparu'r Cynllun Pecynnau Cymunedol y tu hwnt i'r cytundeb cyllido gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn honno a chefnogi'r galw sydd ar y gweill. Mae'n enghraifft o'r cysylltiadau a'r gorgyffwrdd rhwng elfennau o'r rhaglen a lle ceir hyblygrwydd o ran cyflawni, lle bo angen. Y swm uchaf nesaf a ddyfarnwyd oedd ychydig dros £240,000, a roddwyd i gefnogi mudiad trydydd sector yn Rhondda Cynon Taf i greu gwarchodfa natur ar dir adeilad sy'n eiddo i'r gymuned. Roedd gwerth y tri grant hyn yn sylweddol uwch na'r grantiau eraill a ddyfarnwyd ar gynllun NLHF. Roedd y trydydd grant uchaf ei werth (£100,000) ar gyfer prosiect Trafnidiaeth Cymru (TrC) i greu mannau gwyrdd a gwella bioamrywiaeth mewn gwahanol orsafoedd rheilffordd ac ardaloedd cymunedol cyfagos ar draws gogledd Cymru.

Fel y dangosir yn Nhabl 6.1, mae’r dosbarthiad o ran nifer y grantiau a gwerth ariannol y grantiau i’r sector cyhoeddus yn adlewyrchu ffocws ar Gynghorau Tref/Cymuned, a gafodd y gefnogaeth fwyaf o ran nifer y grantiau a chyfanswm y cyllid. Er bod awdurdodau lleol yn derbyn llai o grantiau, roedden nhw’n dal i gyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm y cyllid. Cafodd TrC swm cymharol fawr o gyllid ar gyfer ei un prosiect.

**Tabl 6.1: Dosbarthiad grantiau cyfalaf LPfN NLHF yn y sector cyhoeddus, 2020 i 2024**

| Labeli rhes | Nifer y mathau | Canran y mathau | Swm y grant a ddyfarnwyd (£) | Canran y grant a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Tref/Cymuned | 17 | 77.3% | 681,553 | 68.8% |
| Awdurdod Lleol | 4 | 18.2% | 208,900 | 21.1% |
| TrC | 1 | 4.5% | 100,000 | 10.1% |
| Cyfanswm | 22 | 100.0% | 990,453 | 100.0% |

Ffynhonnell: dadansoddiad o’r data a ddarparwyd gan y NLHF

Mae dosbarthiad cyllid grant wedi'i ganoli mewn rhannau penodol o Gymru. Mae Tabl 6.2 yn nodi’r pedair ardal awdurdod lleol yng Nghymru a gafodd dros £100,000 mewn grantiau rhwng 2020 a 2024. Mae’n bwysig nodi nad yw’r dadansoddiad hwn yn cynnwys prosiectau sy’n cael eu cyflawni ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau lleol, er enghraifft, Cymru gyfan, ac roedd tri o’r prosiectau hyn (grant TrC a dau grant KWT). Mae dadansoddiad o leoliad y derbynwyr grantiau/prosiectau yn dangos mai Sir Gaerfyrddin dderbyniodd y nifer fwyaf o grantiau yn ogystal â’r swm uchaf o gyfanswm y cyllid grant. Er bod llai o grantiau/prosiectau yn Rhondda Cynon Taf, derbyniodd yr ardal bron yr un faint o gyllid, gyda grant mawr yn mynd i un prosiect yn yr ardal.

**Tabl 6.2: Ardaloedd awdurdodau lleol sy’n derbyn mwy na £100,000 o gyllid grant, 2020 i 2024 (ac eithrio prosiectau sy’n cwmpasu mwy nag un ardal) [Sylwer 1]**


| Ardal Awdurdod Lleol | Nifer y grantiau | Canran cyfanswm y grantiau* | Swm y grant a ddyfarnwyd (£) | Canran cyfanswm y grant a ddyfarnwyd* |
|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 8 | 19.5% | 346,850 | 15.9% |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | 7.3% | 343,481 | 15.8% |
| Sir Fynwy | 2 | 4.9% | 109,600 | 5.0% |
| Abertawe | 2 | 4.9% | 108,300 | 5.0% |

Ffynhonnell: dadansoddiad o’r data a ddarparwyd gan y NLHF

[Sylwer 1] Cyflawnwyd tri phrosiect ar draws sawl ardal awdurdod lleol (er enghraifft, de Cymru gyfan). Nid yw’n bosibl rhannu’r cyllid hwnnw’n ardaloedd awdurdodau lleol, felly mae’r prosiectau hynny wedi’u heithrio o’r dadansoddiad fesul ardal awdurdod lleol.

Mae Ffigur 6.1 yn dangos dosbarthiad y cyllid grant ledled Cymru, gan dynnu sylw at y ffaith bod rhai ardaloedd wedi cael mwy o gymorth nag eraill mewn termau ariannol.

**Ffigur 6.1: Delwedd o ddosbarthiad cyllid grant fesul ardal awdurdod lleol (ac eithrio prosiectau sy'n cwmpasu mwy nag un ardal) [Sylwer 1]**




Disgrifiad o ffigur 6.1: Map o Gymru yn dangos swm y grant a ddyfarnwyd mewn gwahanol ardaloedd. Mae'r map yn defnyddio graddfa graddiant lliw o wyrdd golau i wyrdd tywyll, lle mae lliwiau tywyllach yn cynrychioli symiau uwch o grantiau a ddyfarnwyd. Y swm uchaf o grant yw £346,850 a'r swm isaf yw £21,300. Yng nghanol-de Cymru mae'r ardaloedd sydd â'r gwyrdd tywyllaf.

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan y NLHF

[Sylwer 1] Cyflawnwyd tri phrosiect ar draws sawl ardal awdurdod lleol (er enghraifft, de Cymru gyfan). Nid yw'n bosibl rhannu'r cyllid hwnnw'n ardaloedd awdurdodau lleol, felly mae'r prosiectau hynny wedi'u heithrio o'r dadansoddiad fesul ardal awdurdod lleol.

### 6.1.1 Targedu ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd

Fel y nodwyd ar ddechrau'r adran hon, un o nodau Cynllun Grantiau Cyfalaf NLHF yw targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, cymunedau trefol/o gwmpas trefi, a'r rheini sydd â mynediad cyfyngedig at fyd natur. Mae'r data ar ddosbarthiad daearyddol cyllid grant yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am lwyddiant y cynllun o ran targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, er mai dim ond ar lefel awdurdod lleol y mae hynny. Mae cyfyngiadau mewn dadansoddiad o'r fath oherwydd nad yw'n ystyried unrhyw 'bocedi' o amddifadedd a allai fodoli mewn ardal awdurdod lleol. Dylid ystyried hyn wrth adolygu canfyddiadau'r dadansoddiad. Fodd bynnag, mae angen ystyried y ffaith mai cynllun grant sy'n cael ei arwain gan y galw yw hwn. Er bod y cynllun yn cael ei ddisgrifio fel un sy'n targedu lleoliadau penodol, mae ei allu i wneud hynny'n seiliedig ar dderbyn ceisiadau am gymorth o'r ardaloedd hynny.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yn mesur amddifadedd yng Nghymru. Nid yw'n darparu dadansoddiad uniongyrchol ar lefel awdurdod lleol, ond gellir ei ddefnyddio i gael gwybodaeth am amddifadedd mewn awdurdodau lleol. Mae MALIC, yn anad dim, yn rhestru 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) [troednodyn 5] yng Nghymru o'r mwyaf difreintiedig i'r lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd canran yr ardaloedd LSOA o fewn yr awdurdod lleol sydd o fewn y 30% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru fel ffordd o sgorio ardaloedd awdurdodau lleol. Mae Tabl 6.3 yn dangos y pum ardal awdurdod lleol uchaf eu safle yn ôl y dadansoddiad hwnnw ynghyd â chanran y cyllid grant a gawsant rhwng 2020 a 2024.

**Tabl 6.3: Tabl yn dangos safle MALIC ardaloedd awdurdod lleol a chanran y cyllid grant a gawsant [Sylwer 1]**

| Ardal awdurdod lleol | Safle MALIC | % cyllid grantiau |
|---|---:|---:|
| Blaenau Gwent | 1 | 1.2% |
| Merthyr Tudful | 2 | 3.3% |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 | 4.5% |
| Rhondda Cynon Taf | 4 | 15.8% |
| Torfaen | 5 | 2.2% |

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan NLHF a data MALIC (2019)
[Sylwer 1] Safle wedi'i seilio ar ganran yr ardaloedd LSOA o fewn yr awdurdod lleol sydd o fewn y 30% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Er bod cyfyngiadau i'r dadansoddiad hwn, fel y nodwyd uchod, yn enwedig y ffaith nad yw'n ystyried unrhyw bocedi o amddifadedd mewn ardal awdurdod lleol, mae'n awgrymu bod Cronfa Gyfalaf LPfN wedi bod yn llai llwyddiannus o ran cefnogi'r lleoliadau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dosbarthwyd cyfran gymharol fach o gyfanswm y cyllid grant i ardaloedd y pum awdurdod lleol sydd yn y safleoedd uchaf, ac eithrio Rhondda Cynon Taf. Fel y nodwyd yn flaenorol, yr ardal awdurdod lleol a dderbyniodd y swm mwyaf o gyllid o'r cynllun hwn oedd Sir Gaerfyrddin, sydd yn y 12fed safle allan o 22 o ran MALIC yn y dadansoddiad hwn. Cafodd y pum ardal awdurdod lleol sydd yn y safle isaf (Sir Benfro, Powys, Gwynedd, Ceredigion a Sir Fynwy) yn y dadansoddiad hwn gyfanswm, gyda'i gilydd, o 13% o'r cyllid.

## 6.2 Gwybodaeth o adroddiadau prosiect a chyfweliadau â rhanddeiliaid

Nid oes data monitro ar lefel cynllun ar gyfer canlyniadau nac effeithiau'r prosiectau a gefnogir. Mae adroddiadau'n cael eu gwneud ar lefel prosiect, a darparwyd adroddiadau

**Troednodiadau**
[5] Ardaloedd daearyddol bach yng Nghymru a Lloegr yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, at ddiben adrodd ar ystadegau lleol. Fel arfer, maen nhw'n cynnwys rhwng 1,000 a 3,000 o drigolion neu rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd. Mae'r ardaloedd safonol hyn yn caniatáu cymharu ystadegau'n gyson ar draws gwahanol ranbarthau a thros amser. Defnyddir yr ardaloedd hyn yn eang ar gyfer cyhoeddi setiau data amrywiol, gan gynnwys data cyfrifiad, mynegeion amddifadedd, a mathau eraill o ddangosyddion economaidd-gymdeithasol.

cwblhau a/neu adroddiadau gwerthuso gan NLHF ar gyfer 38 o'r 41 prosiect a dderbyniodd grant. Roedd adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cwblhau ar gael ar gyfer 26 prosiect, gyda 12 prosiect arall wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ar sail yr adroddiad cwblhau yn unig. Roedd maint a math o wybodaeth a ddarparwyd yn amrywio ond roedd yn rhoi syniad da a defnyddiol. O'r adroddiadau gwerthuso, llwyddodd 11 i basio 'prawf gwirio ansawdd' a oedd yn asesu pa mor gadarn oedd y data [troednodyn 6]. Fodd bynnag, hyd yn oed lle roedd hyn yn wir, gyda rhai eithriadau, roedd yr adroddiadau gwerthuso at ei gilydd yn gynnil, er ei bod yn bwysig pwysleisio nad oedd disgwyl o gwbl i dderbynwyr grantiau ddarparu adroddiadau gwerthuso cynhwysfawr. Roedd yr adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar nodi'n fras yr hyn a gyflawnwyd. Ar ben hynny, mae'n bwysig ystyried amseriad yr adroddiadau, gan eu bod wedi cael eu cynhyrchu ar ôl i brosiectau ddod i ben pan nad oedd yn debygol y byddai'r canlyniadau tymor hwy wedi cael eu gwireddu eto.

Ategwyd yr wybodaeth o'r adroddiadau gan gyfweliadau a gynhaliwyd gyda dau reolwr grantiau NLHF yn ogystal â chynrychiolwyr pedwar prosiect (pob cyngor cymuned, fel yr awgrymwyd gan gydlynydd Un Llais Cymru) a oedd wedi cael eu cefnogi gan y cynllun.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw hon yn sampl gynrychioladol o'r prosiectau a'r gweithgareddau sydd wedi cael eu cefnogi gan y cynllun. Ffocws y cam hwn o'r gwerthusiad oedd nodi materion allweddol y dylai'r gwerthusiad eu harchwilio wrth symud ymlaen. Bydd rhagor o waith maes a chyfweliadau â'r prosiectau sydd wedi cael eu cefnogi, yn ogystal â'r gymuned leol, yn cael eu cynnal yng ngham nesaf y gwerthusiad.

### 6.2.1. Ymgysylltu â'r gymuned

Mae'r adroddiadau a'r cyfweliadau a gynhaliwyd yn awgrymu bod ymgysylltu â'r gymuned leol yn hanfodol i brosiect llwyddiannus. Yn benodol, awgrymwyd bod cynnwys y gymuned yn y broses o wneud penderfyniadau a gweithredu prosiectau yn bwysig yn gyffredinol. Er enghraifft, nododd adroddiad cwblhau un prosiect fod gwirfoddolwyr sy'n dysgu sgiliau newydd ac yn dod â'u syniadau i'r prosiect 'wedi arwain at fwy o ddatganoli yn ein penderfyniadau ar gyfer tirwedd yr ardal, sydd wedi cefnogi treftadaeth gymunedol'. Tynnodd prosiect arall sylw at sut roedd 'datblygiad a chynnal a chadw pellach [wedi cael] ei drosglwyddo i grŵp o oedolion ifanc ag anableddau sy'n mynychu'r ganolfan – gan dyfu cynnyrch a gwerthu ar stondin wrth y fynedfa'.

Roedd cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr yn fesur a ddefnyddiwyd yn aml i ddangos y canlyniadau/effaith a gyflawnwyd gan brosiectau mewn adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cwblhau. Roedd nifer y bobl a oedd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau prosiectau – fel cyfranogwyr mewn digwyddiadau neu fel ymwelwyr â'r safle – yn aml yn cael ei gyflwyno fel tystiolaeth bendant o lwyddiant yn yr adroddiadau. Fodd bynnag, nodwyd heriau o ran ymgysylltu â gwirfoddolwyr hefyd, a nodwyd effaith pandemig COVID-

**Troednodiadau**

[6] Roedd y prawf gwirio ansawdd yn cynnwys cadarnhau a oedd o leiaf ddwy o'r cydrannau canlynol wedi'u cynnwys: (a) manylion methodoleg y gwerthusiad; (b) asesiad o'r cyflawni a'r rheoli; (c) manylion y canlyniadau a'r effaith a aseswyd; a (d) adran yn cyflwyno casgliad/crynodeb/gwersi a ddysgwyd. O'r 26 prosiect gydag adroddiad gwerthuso, llwyddodd 11 i basio'r prawf gwirio ansawdd hwn. Ar gyfer prosiectau lle nad oedd yr adroddiadau wedi pasio'r prawf gwirio ansawdd neu dim ond adroddiad cwblhau oedd ar gael, cofnodwyd manylion allweddol ac maen nhw wedi'u cynnwys wrth gyflwyno'r canfyddiadau fel y bo'n briodol.

19 yn rheolaidd. Roedd tri adroddiad yn tynnu sylw'n benodol at yr anhawster o estyn y tu hwnt i'r gwirfoddolwyr presennol yn ogystal â'r risg o wirfoddolwyr yn gorwneud pethau a gweithgareddau'n chwythu eu plwc os byddan nhw'n dibynnu gormod ar grŵp bach sefydledig.

Er bod manylion y gweithgareddau yn yr adroddiadau yn brin weithiau, roedden nhw'n tynnu sylw at y ffaith bod cyllid LPfN yn cael ei ddefnyddio, ym mhob achos, ar gyfer prosiect a oedd yn cynrychioli rhan o 'genhadaeth' ehangach ar ran y sefydliad dan sylw, er enghraifft, gwaith cyngor cymuned neu grŵp i adfywio neu ddatblygu tref, pentref neu adeilad penodol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn tynnu sylw at yr angen i edrych ar weithgareddau a ariennir gan LPfN fel rhan o broses tymor hwy, yn hytrach na phrosiect annibynnol. Roedd hyn, er enghraifft, yn wir am un prosiect a oedd yn creu gardd ddŵr ar safle a ddywedodd ei fod wedi 'bod yn rhan o broses adfer amgylchedd y safle ers 1979'. Roedd prosiect hirsefydlog arall wedi datblygu ased dros 10 mlynedd yn lleoliad bywiog sy'n diwallu anghenion y gymuned drwy drawsnewid tirwedd ddiwydiannol yn barcdir naturiol. Roedd y grant cyfalaf yn caniatáu iddyn nhw amrywio'r cyfleoedd ymgysylltu, gan ddenu ystod ehangach o ymwelwyr, gan gynnwys teuluoedd a phlant ysgol, a ddysgodd am adfer planhigion a phryfed drwy weithgareddau rhyngweithiol.

Yn yr adroddiadau hefyd cafwyd enghreifftiau o sut roedd yr ased naturiol a ddatblygwyd gyda chyllid LPfN wedi bod yn gatalydd i brosiectau adeiladu arno er mwyn cryfhau ymgysylltiad y gymuned a phartneriaid ymhellach. Er enghraifft, nododd un prosiect fod ymgysylltu â'r gymuned yn eu prosiect wedi gwella drwy bartneriaethau newydd a chyllid ychwanegol ar ôl creu gwarchodfa natur mewn adeilad sy'n eiddo i'r gymuned. Aeth un arall ati i wella mynediad i'r cyhoedd a chreu perllannau cymunedol, a disgrifiodd tua 30 o brosiectau fod gwirfoddolwyr yn rhan o weithgareddau fel rhaglenni ysgol goedwig a gweithgareddau garddio ar safleoedd a ddatblygwyd.

Soniodd y cynrychiolwyr a gafodd eu cyfweld o brosiectau a ariannwyd am amrywiaeth o strategaethau i ymgysylltu â'r gymuned. Roedd y gwaith cychwynnol o estyn allan yn aml yn cynnwys cyfarfodydd cymunedol ac ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd:

> "Fe ddechreuon ni grŵp Facebook a denu gwirfoddolwyr drwy hyn. Fe gawson ni gyfarfod cymunedol lle buon ni'n trafod beth roedden ni eisiau ei wneud gyda'r parc." Cynrychiolydd cyngor tref/cymuned)

Nodwyd bod partneriaethau ag ysgolion, colegau a chanolfannau cymunedol lleol yn bwysig. Pwysleisiodd pedwar o'r ymatebwyr bwysigrwydd y partneriaethau hyn o ran cynnal yr ymgysylltiad. Dywedodd un ymatebydd:

> "Fe wnes i gysylltu â'r ysgol a'r coleg lleol ac mae ganddyn nhw fyfyrwyr sy'n dod i'r ardal tyfu cymunedol unwaith yr wythnos. Fe wnes i hefyd ymgysylltu â'r ganolfan gymunedol a'r cartref hen bobl lleol." Cynrychiolydd cyngor tref/cymuned)

Dywedodd pawb a gyfwelwyd, gan gynnwys y ddau swyddog NLHF a'r pedwar cynrychiolydd o gynghorau cymuned/tref a gefnogwyd, fod cynnal lefelau gwirfoddolwyr yn her. Dywedodd un:

> "Yr unig broblem yw cynnal lefelau digon uchel o wirfoddolwyr i gynnal y safle yn y tymor hir. Yn wreiddiol roedd gennym 30 o wirfoddolwyr a fyddai'n helpu gyda gwaith cynnal a chadw, ond mae hyn i lawr i 10 erbyn hyn." (Cynrychiolydd cyngor tref/cymuned)

Roedd rhwystrau ieithyddol a diwylliannol hefyd yn peri heriau, yn enwedig o ran ymgysylltu â ffoaduriaid a grwpiau lleiafrifoedd ethnig; soniodd dau ymatebydd am yr anawsterau o ran goresgyn diffyg ymddiriedaeth cychwynnol a rhwystrau ieithyddol. Roedd cyfyngiadau o ran adnoddau, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig iawn, yn rhwystr cyffredin arall.

### 6.2.2. Canlyniadau eraill a nodwyd

Roedd pedwar o'r adroddiadau gwerthuso a adolygwyd yn cynnwys adborth meintiol ac ansoddol o arolygon a gynhaliwyd ganddyn nhw a/neu adborth a gasglwyd gan wirfoddolwyr i ddangos tystiolaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae'r rhain yn cynnwys y ddau brosiect mawr: pecynnau garddio KWT y talwyd amdanynt ymlaen llaw a phrosiect Llwybrau Gwyrdd TrC.

Dyma rai o'r canlyniadau penodol a nodwyd:

- Darparu gweithgareddau i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, gan gefnogi hyder i deithio, yn ogystal â chyfleoedd i feithrin cysylltiad â byd natur sydd o fudd i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol (TrC) [troednodyn 7]
- Estyn allan i leoliadau trefol/o gwmpas trefi (87% o brosiectau) a lleoliadau difreintiedig (34% o brosiectau yn y 30% o ardaloedd difreintiedig) (KWT - gweler Adran 8)
- Canlyniadau cadarnhaol yn erbyn dangosyddion ar gyfer llesiant, iechyd corfforol a meddyliol, ynysu, hapusrwydd, cymhelliant, cydlyniant cymunedol, cynhwysiant, ynysu, sgiliau, a chyfleoedd cyflogaeth (KWT) – gweler Adran 8 am drafodaeth ar ganlyniadau'r Cynllun Pecynnau Cymunedol.

Yn fwy cyffredinol, cyflwynodd yr adroddiadau gwerthuso ddyfyniadau byr gan gyfranogwyr i ddangos canlyniadau. Er enghraifft, roedd un adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos i ddangos canlyniadau penodol, sef 'goresgyn gorbryder cymdeithasol/ynysu cymdeithasol' a 'cyfle i bobl ifanc roi sgiliau garddio tirlun ar waith'.

Mae enghreifftiau eraill o ganlyniadau a amlygwyd mewn adroddiadau fel astudiaethau achos neu fel dyfyniadau gan gyfranogwyr/buddiolwyr yn cynnwys:

---

**Troednodiadau**

[7] Mae'r adroddiad gwerthuso'n nodi bod yr adborth hwn wedi'i gofnodi'n ysgrifenedig ac ar recordiadau ffilm. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod 73 o wirfoddolwyr wedi dweud bod eu llesiant wedi gwella, o blith cyfanswm o 176 o wirfoddolwyr a oedd yn rhan o'r prosiect.

- Cynnydd yn nifer y cyfranogwyr/ymwelwyr a/neu nifer y gwirfoddolwyr sy'n aros gyda'r prosiect, fel tystiolaeth o brofiad cadarnhaol
- Manteision llesiant i unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau
- Mwy o wybodaeth am natur, er enghraifft, gwybodaeth am wahanol rywogaethau, pwysigrwydd cynefinoedd ar gyfer adfer natur
- Mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau ac asiantaethau sy'n cefnogi grwpiau targed penodol. Roedd hyn, yn bennaf, yn cynnwys ysgolion a cholegau, sefydliadau iechyd meddwl, a darparwyr gofal cymdeithasol
- Prosiectau sy'n gweithredu fel catalyddion ar gyfer grwpiau/sefydliadau eraill i ddatblygu prosiectau cysylltiedig yn y gofod newydd.

## 6.3 Casgliad a'r camau nesaf

Mae Cynllun Grantiau Cyfalaf NLHF wedi dosbarthu dros £2 filiwn yn y pedair blynedd ers sefydlu'r cynllun LPfN. Rhwng 2020 a 2024, cafodd y cyllid hwn ei ddosbarthu'n gymharol gyfartal rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, gan gefnogi amrywiaeth o brosiectau. Er bod rhai prosiectau ar raddfa fwy, roedd y rhan fwyaf o'r grantiau'n gymharol fach, gyda chyfartaledd o £53,000 ar draws y 41 prosiect a gefnogwyd. Cafodd cynghorau tref a chymuned gyfran fawr o gyllid grant y cynllun.

Nid yw dosbarthiad y grantiau a'r cyllid ledled Cymru wedi bod yn gyfartal, gyda nifer y grantiau'n arbennig o uchel mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn cael ei arwain gan alw, sy'n golygu ei bod yn anodd osgoi'r math hwn o ddosbarthiad anghyfartal. Mae hefyd yn cyfyngu potensial y cynllun i dargedu rhannau penodol o Gymru. Er bod mathau penodol o geisiadau, neu geisiadau o rannau penodol o Gymru, yn gallu (ac wedi) cael eu gwahodd, ni all y cynllun ond cefnogi ceisiadau am gyllid y mae'n ei dderbyn. O'r herwydd, nid yw'n gallu targedu'r gefnogaeth sydd ar gael ryw lawer.

Nid oes data monitro ar lefel cynllun ar ganlyniadau nac effeithiau'r prosiectau sydd wedi'u cefnogi. Fodd bynnag, mae adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cwblhau a baratowyd gan ymgeiswyr wrth i'w prosiectau ddod i ben, yn rhoi cipolwg defnyddiol o'r hyn yr adroddodd prosiectau eu bod wedi'i gyflawni. Nodwyd ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol, gyda phwyslais penodol ar ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddangos y canlyniadau hynny yn anecdotaidd fel arfer ac yn gyfyngedig o ran ei photensial i ddangos canlyniadau ac effeithiau ar draws y rhaglen. Roedd y dystiolaeth hefyd yn cael ei chasglu'n gyffredinol gan y prosiectau eu hunain ar sail eu gweithgareddau a'u blaenoriaethau penodol.

Wrth symud ymlaen, bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ymweld â sampl o'r prosiectau sydd wedi cael cymorth gan y Cynllun Grantiau Cyfalaf i adeiladu ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiadau a welwyd a'r cyfweliadau hyd yma i gasglu mwy o ddata am effaith y gweithgareddau a gynhaliwyd.

# 7. Y Cynllun Chwalu Rhwystrau

Yr ail gynllun LPfN a ddarparwyd gan NLHF oedd y Cynllun Chwalu Rhwystrau. Roedd yn cynnig grantiau refeniw-yn-unig o rhwng £30,000 a £100,000. Nod y prosiectau hyn oedd cynnwys cymunedau difreintiedig mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â natur, gan ganolbwyntio ar gynnwys lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, Sipsiwn, ac unigolion a grwpiau o ardaloedd difreintiedig. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Chwefror 2025, roedd y cynllun wedi cau i geisiadau ers mis Mawrth 2023.

Fel grant refeniw, gellid defnyddio'r cyllid ar gyfer:

- Costau staffio
- Adennill costau'n llawn i'r sefydliad
- Gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd
- Digwyddiadau hyfforddiant/gwybodaeth i aelodau'r gymuned
- Digwyddiadau blasu i alluogi cymunedau i brofi manteision byd natur
- Eitemau i'w defnyddio mewn digwyddiadau / 'mynd yn ôl adref' fel hadau, eginblanhigion, compost heb fawn, menig, potiau bioddiraddadwy, offer bach
- Ymweliadau â mannau lleol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer byd natur yn yr ardal i ddangos beth sy'n bosibl ac i rannu syniadau/arbenigedd
- Treuliau gwirfoddolwyr gan gynnwys costau teithio, gofal plant, bwyd a diod
- Cynllunio prosiectau natur posib yn yr ardal.

Fodd bynnag, ni ellid defnyddio'r arian i brynu eitemau cyfalaf fel gliniaduron a ffonau. Ni ellid defnyddio'r Cynllun Chwalu Rhwystrau i ariannu'r gwaith o ddatblygu 'lle lleol i natur'; gellid gwneud hyn drwy elfennau eraill y rhaglen LPfN.

## 7.1 Y prosiectau a gefnogwyd

Roedd y data monitro a ddarparwyd gan yr NLHF yn dangos bod 11 o grantiau wedi'u dyfarnu, pump yn y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 a chwech yn y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Roedd cyfanswm gwerth y grantiau ychydig o dan £655,000. Darparwyd y prosiectau gan naw sefydliad, gyda dau o'r rheini'n cyflawni dau brosiect yr un (mewn blynyddoedd ariannol gwahanol). Roedd gwerth y grantiau yn amrywio o £30,000 i ychydig o dan £100,000.

## 7.2 Dosbarthu prosiectau a chyllid

Fel y dangosir yn y tabl isod, o ran lleoliad, dosbarthwyd y cyllid i chwe ardal awdurdod lleol wahanol, i gyd yn ne Cymru. Yn ariannol, dyrannwyd 42% o'r cyllid i brosiectau yng Nghaerdydd, a gellir priodoli hyn yn rhannol i faint cyffredinol y ddinas a lefel ei chymunedau lleiafrifol o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

**Tabl 7.1: Nifer a chyfanswm gwerth prosiectau Chwalu Rhwystrau yn ôl ardal ALl**

| Ardal Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Cyfanswm y gwerth (£) |
|---|---:|---:|
| Caerdydd | 4 | 277,005 |
| Abertawe | 2 | 146,140 |
| Casnewydd | 2 | 99,679 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 65,000 |
| Torfaen | 1 | 37,000 |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | 30,000 |

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan y NLHF

## 7.3 Gwybodaeth o adroddiadau prosiect a chyfweliadau â rhanddeiliaid

Ni chasglwyd unrhyw ddata monitro ar lefel cynllun ar gyfer canlyniadau nac effeithiau, er bod adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cwblhau ar gael, yn yr un modd â'r Cynllun Grantiau Cyfalaf. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau ar ddangosyddion perfformiad yn benodol i brosiect.

Darparodd NLHF adroddiadau interim ac adroddiadau cwblhau ar gyfer wyth prosiect, gan dynnu sylw'n bennaf at weithgareddau (allbynnau), yn hytrach na chanlyniadau mesuradwy, gyda'r rhan fwyaf o'r data canlyniadau'n anecdotaidd. Ond, mae'r adroddiadau hyn eto'n cynnig cipolwg gwerthfawr o ddulliau gweithredu a chyflawniadau prosiectau. Ategwyd yr adroddiadau hefyd gan y cyfweliadau gyda swyddogion NLHF sy'n ymwneud â'r cynllun.

Rhoddwyd un o'r grantiau mwyaf i brosiect a oedd yn ceisio gwella iechyd meddwl a chydlyniant cymunedol ymysg grwpiau ethnig lleiafrifol drwy weithgareddau cynaliadwy sy'n seiliedig ar natur. Roedd y grant yn cefnogi staff a gwirfoddolwyr y prosiect a ddenodd dros 1,000 o gyfranogwyr i fod yn rhan o weithgareddau fel lleihau gwastraff cartrefi, hamdden yn yr awyr agored, ac ymweliadau â safleoedd treftadaeth ddiwylliannol. Roedd y prosiect hefyd yn cyd-fynd â chynlluniau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo arferion ecogyfeillgar fel beicio a cherdded drwy'r gweithgareddau canlynol:

- Trefnu teithiau seiclo yn y parc ar gyfer dros 150 o bobl
- Hwyluso teithiau cerdded ar hyd y traeth i oddeutu 80 o bobl
- Cynnig gwersi beicio i aelodau'r gymuned i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau beicio lleol a chenedlaethol ac i dynnu sylw at sut mae beicio a cherdded pellteroedd byr yn cyfrannu at nodau Sero Net.

Roedd prosiect arall yn canolbwyntio ar drawsnewid mannau trefol sydd wedi'u hesgeuluso yn erddi cymunedol ac ardaloedd natur. Bu dau aelod o staff rhan-amser yn arwain 25 o weithgareddau cymunedol gan gynnwys teithiau natur, digwyddiadau i deuluoedd, a chydweithio ag ysgolion lleol. Denodd y prosiect dros 1,200 o bobl, gan geisio meithrin cysylltiadau cymunedol cryf ac annog cyfranogiad parhaus mewn gweithgareddau cymunedol.

Adroddwyd bod partneriaethau â sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Natur leol a'r awdurdod lleol wedi bod yn bwysig i lwyddiant y prosiect o ran meithrin ymgysylltiad sy'n seiliedig ar natur. Ni chafwyd trafodaeth fanwl ynghylch hynny, ar wahân i'r angen cyffredinol i weithio mewn partneriaeth a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn yr ardal leol.

Mae'r rhestr o sefydliadau a gefnogwyd ynghyd â'r adroddiadau a adolygwyd yn awgrymu bod cyllid wedi'i roi i sefydliadau sydd â phrofiad helaeth o ymgysylltu â'u grwpiau targed. Roedd swyddogion NLHF a gyfwelwyd o'r farn bod profiad o ymgysylltu â'r grŵp lleiafrifol/dan anfantais dan sylw yn allweddol i brosiect Chwalu Rhwystrau effeithiol. Dywedodd un o swyddogion NLHF a gyfwelwyd hefyd ei fod yn teimlo ei bod yn bwysig i brosiectau ymgysylltu â'r hyn roedden nhw'n cyfeirio ato fel 'sefydliadau sy'n cadw llygad' yn yr ardal leol – sefydliadau eraill a oedd â chysylltiadau presennol a pharhaus â'r grwpiau roedd prosiect yn ceisio ymgysylltu â nhw. Y rheswm am hyn oedd bod y sefydliadau hynny'n gallu adeiladu ar eu rhwydweithiau, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad presennol.

Mae'n bwysig pwysleisio bod y data sydd ar gael yn rhoi pwys yn bennaf ar y gweithgareddau a gyflawnwyd / allbynnau a thystiolaeth anecdotaidd o ganlyniadau a gyflawnwyd. Maen nhw hefyd wedi cael eu hysgrifennu gan y sefydliadau sy'n darparu'r prosiectau. Ond, mae'r adroddiadau'n awgrymu bod pob prosiect wedi llwyddo i ymgysylltu ag unigolion a'u cefnogi, gan gynnwys pobl awtistig, y rheini sy'n wynebu heriau o ran iechyd meddwl, ac unigolion sydd â namau dysgu, i feithrin hyder, sgiliau cymdeithasol, a gwelliannau cyffredinol o ran ansawdd bywyd.

## 7.4 Casgliad a'r camau nesaf

Cefnogodd y Cynllun Chwalu Rhwystrau amrywiaeth o brosiectau rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2023. Fodd bynnag, roedd dosbarthiad y prosiectau hynny'n gymharol gyfyngedig, heb unrhyw brosiectau'n cael eu hariannu y tu allan i dde Cymru.

Er bod angen nodi cyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y cyllid a ddarparwyd i sefydliadau wedi bod yn werthfawr o ran cefnogi gweithgareddau. Roedd y prif lwyddiannau a nodwyd gan y derbynwyr grant yn cynnwys ymgysylltu â'r grwpiau targed mewn gweithgareddau amrywiol fel gweithgareddau'r amgylchedd a gwirfoddoli, manteision i lesiant wrth fod yn yr awyr agored, ac ymweliadau â safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Adroddodd y prosiectau hefyd am ymgysylltu a chefnogi pobl awtistig, unigolion â phroblemau iechyd meddwl, neu unigolion â namau dysgu, gan geisio helpu i feithrin eu hyder, datblygu eu sgiliau cymdeithasol, a gwella ansawdd eu bywyd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael, fodd bynnag, yn canolbwyntio i raddau helaeth ar allbynnau gweithgareddau yn ogystal â thystiolaeth anecdotaidd o ganlyniadau a gyflawnwyd fel yr adroddwyd gan y derbynwyr grant ac, felly, mae angen ei dilysu.

Wrth symud ymlaen, bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ymweld â sampl o'r prosiectau sydd wedi cael cymorth gan y cynllun, gyda'r bwriad o gasglu tystiolaeth fwy cyson ac annibynnol o'r canlyniadau a gyflawnwyd.

# 8. Cynllun Pecynnau Cymunedol

Mae'r Cynllun Pecynnau Cymunedol yn cael ei ddarparu gan Cadwch Gymru'n Daclus (KWT), ac mae'n darparu pecynnau y talwyd amdanynt ymlaen llaw i grwpiau cymunedol i gyflawni prosiectau. Mae manylion y pecynnau yn Atodiad B, ac maen nhw'n amrywio o ran maint i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau garddio bach yn ogystal â pherllannau a chamau gweithredu ar raddfa fwy. Mae pob pecyn yn cynnwys planhigion brodorol, offer ac adnoddau, ac mae staff KWT yn delio ag archebion a danfoniadau, yn ogystal â chefnogi grwpiau i sefydlu eu gardd newydd. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd â chyfranogiad cymunedol cryf yn ogystal â threfi, dinasoedd, ardaloedd difreintiedig, a mannau heb fawr ddim mynediad at fyd natur, os o gwbl.

## 8.1 Nifer a dosbarthiad y prosiectau

Mae KWT wedi casglu amrywiaeth o ddata monitro ar gyfer y cynllun. Mae'r data hyn yn cwmpasu pedair blwyddyn ariannol, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2024. Maen nhw'n cael eu rhannu'n ddata ar gyfer y 'pecynnau cychwyn' llai ar gyfer prosiectau garddio bach ac ar gyfer y 'pecynnau datblygu' ar gyfer sefydliadau cymunedol sy'n awyddus i greu prosiectau ar raddfa fwy [troednodyn 8].

**Tabl 8.1: Prosiectau a gymeradwywyd yn ôl blwyddyn ariannol, pecynnau cychwyn a phecynnau datblygu**

| Blwyddyn | Cychwyn | Datblygu | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| Ebrill 2020 - Mawrth 2021 | 440 | 82 | **522** |
| Ebrill 2021 - Mawrth 2022 | 180 | 120 | **300** |
| Ebrill 2022 - Mawrth 2023 | 151 | 125 | **276** |
| Ebrill 2023 - Mawrth 2024 | 196 | 149 | **345** |
| **Cyfanswm** | **967** | **476** | **1,443** |

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan KWT

Mae Tabl 8.1 yn dangos bod nifer sylweddol uwch o becynnau cychwyn wedi'u hariannu yn y flwyddyn ariannol gyntaf o'u cymharu â phecynnau datblygu. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn unol â'r bwriad, a bod tîm KWT wedi cyllidebu ar gyfer mwy o becynnau cychwyn. Roedd y bwlch yn llai yn y blynyddoedd dilynol ond roedd bwlch yn dal i fodoli. Gallai hyn fod oherwydd bod y broses ymgeisio ar gyfer pecynnau cychwyn yn symlach ac yn fwy hygyrch, tra bod pecynnau datblygu yn aml yn cynnwys sefydliadau mwy a chynlluniau prosiect mwy cymhleth, ac mae'n anoddach gwneud cais amdanyn nhw. Gall y galw am becynnau datblygu hefyd fod yn is na'r galw am becynnau cychwyn llai. Mae angen llai o le ar gyfer y pecynnau cychwyn, sy'n golygu bod mwy o gyfle i osod y pecynnau hynny. Gall lle hefyd fod yn gyfyngiad mewn mannau trefol lle mae prosiectau'n cael eu rhoi ar waith. Ond, dyfalu yn unig yw hyn ac nid yw wedi'i gadarnhau.


**Troednodiadau**

[8] Ar gyfer y dadansoddiad, mae'r 'pecynnau perllannau' wedi'u cynnwys yn y ffigurau 'pecynnau cychwyn'. Nid yw'r data'n cynnwys y pecynnau 'enfawr' na'r pecynnau 'adlenwi' a gyflwynwyd yn 2024.

Roedd ‘Adroddiad Gwerthuso LPfN 2022 i 2023’ a gynhyrchwyd gan KWT yn nodi, oherwydd sgiliau amrywiol ymgeiswyr, a faint o le sydd ar gael, bod ymgeiswyr yn cael eu cefnogi i wneud cais am y pecyn a oedd fwyaf addas i’w hanghenion. Cafodd y rhai â mwy o sgiliau, lle a chapasiti eu hannog i wneud cais am becynnau datblygu mwy, tra bod pecynnau cychwyn yn cael eu hyrwyddo fel dewis amgen hygyrch a’r ffordd berffaith o ddechrau arni.

Mae Ffigurau 8.1 ac 8.2 yn dangos dosbarthiad y pecynnau cymunedol ledled Cymru yn ôl ardal awdurdod lleol ac mae’n rhoi darlun defnyddiol o ddosbarthiad daearyddol y cymorth a ddarperir gan y cynllun.

**Ffigur 8.1: Dosbarthiad y pecynnau cychwyn fesul ardal awdurdod lleol**





Disgrifiad o ffigur 8.1: Map o Gymru, wedi’i rhannu’n rhanbarthau, gyda phob rhanbarth wedi’i liwio’n wahanol arlliwiau o las i gynrychioli nifer y prosiectau yn yr ardal honno. Mae’r allwedd ar y dde yn dangos bod lliwiau tywyll yn cyfateb i nifer uwch o brosiectau, gyda’r arlliw tywyllaf yn cynrychioli 111 o brosiectau a’r ysgafnaf yn cynrychioli 21 o brosiectau. Mae’r niferoedd ym mhob rhanbarth yn dangos union nifer y prosiectau.

Ffynhonnell: dadansoddiad o’r data a ddarparwyd gan KWT

Mae Caerdydd yn sefyll allan ar y map fel lleoliad 11.5% (n=111) o gyfanswm y prosiectau a gefnogir gan becynnau cychwyn. Mae Sir Gaerfyrddin yn amlwg hefyd gyda 7.4% o’r prosiectau (n=72).

**Ffigur 8.2: Dosbarthiad y pecynnau datblygu fesul ardal awdurdod lleol**




Disgrifiad o ffigur 8.2: Map o Gymru yn dangos nifer y prosiectau mewn gwahanol ranbarthau. Mae gan y rhanbarthau godau lliw yn seiliedig ar nifer y prosiectau, gydag arlliwiau tywyllach yn dynodi nifer uwch o brosiectau. Mae'r niferoedd ar y map yn cynrychioli union nifer y prosiectau ym mhob rhanbarth. Mae'r nifer uchaf o brosiectau (46) i'w gweld yn y de, ac mae niferoedd amrywiol mewn rhanbarthau eraill, yn amrywio o 8 i 33.

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan KWT

Mae dosbarthiad y pecynnau datblygu yn wahanol. Unwaith eto, Caerdydd yw lleoliad y nifer uchaf o brosiectau (9.7 % neu n=46 allan o 476), ac mae Sir Gaerfyrddin unwaith eto'n amlwg (6.9 % neu n=33 allan o 476). Fodd bynnag, mae Rhondda Cynon Taf yn elwa o gyfran uwch o brosiectau pecynnau datblygu o'i gymharu â phecynnau cychwyn (9.5% neu n=45 allan o 476 a 6.5% neu n=60 allan o 967 yn y drefn honno) fel y mae Gwynedd (6.5% neu n=31/476 a 4.8% neu n=46/967 yn y drefn honno).

Roedd gwybodaeth monitro'r cynllun hefyd yn cofnodi a oedd prosiect mewn ardal drefol neu ardal o gwmpas trefi, fel y dangosir yn y tabl isod, gan dynnu sylw unwaith eto at y ffocws ar rannau trefol Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun.

**Tabl 8.2: Nifer y prosiectau yn ôl math o leoliad, fesul pecyn a chyfanswm dros oes y cynllun (pob blwyddyn ariannol) [Sylwer 1]**

| Elfen | Trefol | O gwmpas trefi | Gwledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pecynnau cychwyn | 563 | 208 | 167 | **938** |
| Pecynnau datblygu | 232 | 81 | 49 | **362** |
| **Cyfanswm** | **795** | **289** | **216** | **1300** |

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r data monitro a ddarparwyd gan KWT
Sylwer 1: mae cyfanswm y pecynnau'n wahanol i'r hyn a ddyfynnir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn oherwydd bylchau yn y data ar gyfer math o leoliad.

Roedd llawer mwy o becynnau mewn lleoliadau trefol ac o gwmpas trefi na lleoliadau gwledig neu drefi gwledig. O'r 1,300 o becynnau y mae data lleoliad ar eu cyfer, roedd tua 83% mewn lleoliadau trefol neu o gwmpas trefi o'i gymharu ag oddeutu 17% mewn lleoliadau gwledig.

## 8.2 Gweithio mewn ardaloedd o amddifadedd

Fel y nodwyd ar ddechrau'r adran, un o'r ffactorau sy'n cael blaenoriaeth yn y broses asesu ceisiadau yw a yw'r prosiectau arfaethedig, yn unol ag amcanion y rhaglen LPfN, mewn ardal ddifreintiedig yng Nghymru. Nododd 'Adroddiad Gwerthuso LPfN 2022 i 2023' a gynhyrchwyd gan KWT fod y 'panel grantiau' yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) at y diben hwn gan flaenoriaethu ceisiadau o'r rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu data ar gyfer dosbarthu'r grantiau a ddyfarnwyd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 yn ôl MALIC. Nid yw'r un dadansoddiad ar gael ar gyfer blynyddoedd ariannol eraill.

Yn yr adroddiad, nodwyd y canlynol ar gyfer y ceisiadau a ddyfarnwyd y flwyddyn honno:

- roedd 35% yn y categori 30% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- roedd 24% yn y categori 30-50% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- roedd 41% yn y categori 50% o'r wardiau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Er bod y cynllun felly'n weithredol yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru, dim ond traean o'r prosiectau oedd yn yr ardaloedd hynny. Nododd adroddiad gwerthuso KWT sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys y gellid lleoli pecynnau tyfu bwyd yn unrhyw le yng Nghymru, felly hefyd geisiadau gan gyfranogwyr o leiafrifoedd ethnig neu gan gyfranogwyr â namau. Nododd yr adroddiad hefyd fod nifer o geisiadau (er enghraifft, ysgolion), er nad oedden nhw wedi'u lleoli'n uniongyrchol yn y categori 30% o wardiau mwyaf difreintiedig, wedi'u lleoli'n agos iawn at yw ardiau mwyaf difreintiedig neu fod ganddyn nhw gyfranogwyr a oedd yn byw yn y wardiau hynny, er na chafodd hyn ei fesur. Dywedir bod y panel wedi ystyried hyn wrth ddyfarnu pecynnau.

## 8.3 Y mathau o sefydliad a gefnogwyd

Chwaraeodd ysgolion ran allweddol yn y gwaith o gyflawni'r cynllun (Tabl 8.3), gan gynrychioli tua 30% o'r pecynnau cychwyn a'r pecynnau datblygu o flwyddyn ariannol 2021 i 2022 ymlaen. Grwpiau cymunedol ac elusennau cofrestredig oedd y prif fath arall o

sefydliad a oedd yn cymryd rhan, sef tua 15% o'r ddau fath o becyn. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o fathau o sefydliadau wedi cymryd rhan yn y cynllun, gan ddangos ei natur eang.

**Tabl 8.3: Y mathau o sefydliadau sy'n darparu prosiectau a gefnogwyd; pecynnau cychwyn a datblygu – canran y cyfanswm rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2024**

| Math o sefydliad | % y cyfanswm a gefnogwyd, pecynnau cychwyn (n=513) | % y cyfanswm a gefnogwyd, pecynnau datblygu (n=372) |
|---|---:|---:|
| Ysgol | 28.3% | 32.3% |
| Grŵp Cymunedol | 16.4% | 14.8% |
| Elusen Gofrestredig | 16.0% | 18.5% |
| Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | 14.2% | 7.5% |
| Cyngor Tref a Chymuned | 9.4% | 5.6% |
| Bwrdd Iechyd | 3.1% | 1.6% |
| Addoldy / Grŵp Ffydd | 2.9% | 3.0% |
| Menter Gymdeithasol / Cwmni Buddiant Cymunedol | 2.5% | 7.3% |
| Cymdeithas Preswylwyr | 1.9% | 1.3% |
| Gwasanaethau Brys | 1.6% | 2.2% |
| Grŵp Ieuenctid | 1.0% | 1.1% |
| Cymdeithas Rhandiroedd | 0.8% | 1.9% |
| Addysg Uwch | 0.6% | 1.6% |
| Clwb neu Ymddiriedolaeth Chwaraeon / Hamdden | 0.6% | - |
| Sector Trafnidiaeth | 0.4% | - |

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan KWT

## 8.4 Dangosyddion Perfformiad

Mae dangosyddion perfformiad wedi'u cynnwys mewn adroddiadau diwedd blwyddyn gan KWT i Lywodraeth Cymru. Mae'r dangosyddion sy'n cael eu defnyddio wedi newid, felly mae'r data ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu darparu mewn tablau ar wahân (12.1 i 12.4) yn Atodiad C.

Er bod y geiriad wedi newid bob blwyddyn, mae data ar gyfer yr ardal wedi gwella ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac mae'r cyfanswm cronnus ar gyfer hynny tua 115,000 metr sgwâr, sy'n cyfateb yn fras i 16 cae pêl-droed safonol.

Mae data ar gyfer nifer y bobl sy'n cymryd rhan a'r oriau sy'n cael eu treulio yn cael eu cofnodi ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, a rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, er bod geiriad y dangosydd yn wahanol (Atodiad C, Tablau 12.2, 12.3 a 12.4). Gyda'i gilydd, cofnododd y ffigurau hyn oddeutu 14,000 o gyfranogwyr/gwirfoddolwyr a 100,000 awr at brosiectau dros y tair blynedd: tua 7 awr fesul cyfranogwr/gwirfoddolwr. Mae nifer y gwirfoddolwyr yr adroddir amdanyn nhw wedi cynyddu bob blwyddyn, gan gyrraedd bron i 7,000 yn y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Fodd bynnag, nid yw nifer yr oriau sy'n

cael eu cofnodi yn cynyddu yn yr un ffordd, gan gynyddu o 20,000 yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 i 44,000 rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 ond yna'n gostwng i 34,000 yn y flwyddyn ganlynol. Er bod nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu, mae'r ffigurau'n awgrymu bod yr oriau maen nhw'n eu cyfrannu wedi gostwng.

Mae'r dangosyddion perfformiad yr adroddir amdanyn nhw yn allbynnau sy'n dangos faint o weithgarwch a wnaed. Fodd bynnag, nid yw'r data'n rhoi unrhyw syniad o ganlyniadau'r prosiectau/camau gweithredu a gefnogwyd ar gyfer yr unigolion a'r cymunedau dan sylw.

## 8.5 Adroddiad Gwerthuso

Cynhyrchwyd adroddiad gwerthuso gan KWT a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd roedden nhw wedi rhoi'r Cynllun Pecynnau Cymunedol ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Roedd yn cynnwys canfyddiadau arolwg adborth a ddosbarthwyd i 167 o ymgeiswyr ar ôl i erddi gael eu sefydlu, a chafwyd 45 o ymatebion, cyfradd ymateb o 27%. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar gasglu adborth ar y broses ymgeisio, cynnwys y pecyn, a'r cyfathrebu a'r gefnogaeth gan staff a phartneriaid KWT.

Er bod y gwerthusiad yn darparu data defnyddiol, mae cyfyngiadau i'r canfyddiadau y mae angen eu hystyried wrth bwyso a mesur y canfyddiadau:

- Nid oedd data yn yr adroddiad ar ba fath o brosiectau a ymatebodd i'r arolwg
- Roedd y gyfradd ymateb yn gymharol isel
- Mae'r ymatebion yn cynrychioli barn a chanfyddiadau prif gyswllt y grŵp a gefnogwyd, ac nid oes modd dilysu hyn gydag aelodau'r grŵp yn fwy cyffredinol.

Dywed yr adroddiad gwerthuso bod canlyniadau'r arolwg yn dangos bod llawer o ymgeiswyr yn teimlo bod y prosiect yn gwneud eu grŵp yn gryfach, yn agosach at ei gilydd, gan greu mwy o gysylltiad â'r gymuned. Pan ofynnwyd i ymatebwyr sgorio i ba raddau roedden nhw'n teimlo bod cymryd rhan yn y Cynllun Pecynnau Cymunedol yn gwneud eu grŵp yn llawer cryfach, gan ddefnyddio graddfa o 0 (ddim o gwbl) i 5 (cryn dipyn), y cyfartaledd oedd 4.5 allan o 5. Cafwyd yr un sgôr gyfartalog ar gyfer teimladau ymatebwyr ynghylch a oedd y gweithgarwch wedi dod â'u grŵp yn nes at ei gilydd, a chofnodwyd 4.6 ar gyfartaledd ar gyfer a oedd grwpiau'n teimlo mwy o gysylltiad ag eraill yn eu cymuned. Yn yr adroddiad gwerthuso, cafwyd sawl dyfyniad gan ymatebwyr yr arolwg i gefnogi eu hymateb, er nad oedd dadansoddiad cyffredinol o'r data ansoddol.

Tynnwyd sylw yn yr adroddiad gwerthuso at y ffaith mai'r hyn oedd yn hollbwysig i lwyddiant y cynllun oedd bod staff KWT yn rhannu eu sgiliau. Roedd hyn yn ymwneud â'r adnoddau a'r capasiti sy'n cael eu darparu gan y swyddog yn ogystal â'u gwybodaeth a'u profiad. Nodwyd yn yr adroddiad fod hyn yn arbennig o bwysig lle nad oedd gan ymgeiswyr unrhyw brofiad o'r gwaith ymarferol sydd ynghlwm wrth sefydlu gardd.

Dywedodd ymatebwyr yr arolwg eu bod yn ystyried bod y gefnogaeth a ddarperir gan swyddog KWT ymysg elfennau gorau'r cynllun. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw hefyd at rai o'r 'effeithiau pontio cymdeithasol' y mae'r prosiectau yn ystyried eu bod wedi digwydd:

- Roedd 30 o'r 45 o ymatebwyr yn cytuno'n gryf eu bod wedi dysgu sgiliau a/neu wybodaeth newydd drwy adeiladu'r ardd.
- Roedd 15 o'r 45 o ymatebwyr yr arolwg naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y cyfranogwyr yn nes at gyflogaeth/addysg uwch.

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd o geisiadau, ymatebion arolwg, ac adborth yn yr adroddiad gwerthuso yn cael ei disgrifio fel tystiolaeth "gymhellol" o ran dangos bod y cynllun yn ddeniadol i sefydliadau sy'n cefnogi pobl â chyflyrau iechyd, a bod y gwaith yn cael ei gydnabod fel un sydd ag ystod eang o fanteision iechyd a llesiant. Fodd bynnag, dylid nodi'r cyfyngiadau a amlygwyd ym mharagraff 8.19, a bydd y gwerthusiad hwn yn ceisio ymhelaethu ar y canfyddiadau hyn drwy ymgysylltu'n benodol ag aelodau o grwpiau cymunedol a'r gymuned ehangach.

Nododd yr adroddiad fod 63% (30 allan o 45) o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf fod y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant. Unwaith eto, darparwyd cyfres o ddyfyniadau i gefnogi'r canfyddiadau hyn ond ni chawsant eu dadansoddi ymhellach.

O ran dylanwadu ar farn pobl am natur, yr amgylchedd a bywyd gwyllt, dywedodd 35 o'r ymatebwyr fod cymryd rhan yn y prosiect wedi gwneud iddyn nhw deimlo mwy o gymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol eraill. Ar ben hynny, cafwyd ymateb cadarnhaol pan ofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oedden nhw'n teimlo:

- Mwy o gysylltiad â'r amgylchedd a'r bywyd gwyllt yn lleol, ac yn eu gwerthfawrogi (sgôr cyfartalog o 4.6 allan o 5)
- Mwy o gymhelliant i fynd allan i fyd natur drwy ymweld â pharciau a gerddi (sgôr cyfartalog o 4.5 allan o 5)
- Bod y prosiect wedi eu helpu i gael mynediad yn haws at fyd natur ar garreg eu drws (sgôr cyfartalog o 4.6 allan o 5).

Mae'r canfyddiadau sydd yn yr adroddiadau gwerthuso yn gadarnhaol. Er bod angen nodi cyfyngiadau'r ymchwil y mae'r canfyddiadau'n seiliedig arni, mae'r wybodaeth yn cynnig sylfaen ddefnyddiol y gall y gwerthusiad hwn adeiladu arni.

## 8.6 Themâu allweddol o astudiaethau achos y prosiect

Adolygwyd tri chant a chwe deg o astudiaethau achos byr ar gyfer prosiectau, a gynhyrchwyd gan dîm KWT, dros y pedair blynedd ariannol y mae'r cynllun wedi bod yn weithredol. Roedd yr astudiaethau achos, a ysgrifennwyd gan swyddogion prosiect KWT, fel arfer yn cynnwys nifer fach o ddyfyniadau a thystebau uniongyrchol gan gyfranogwyr, gwirfoddolwyr, ac aelodau o'r gymuned. Mae'r dyfyniadau hyn yn cynnig tystiolaeth ansoddol o effaith gadarnhaol y prosiectau ar unigolion a chymunedau. Roedd bron pob un o'r astudiaethau achos hefyd yn cyflwyno allbynnau a metrigau penodol fel nifer y gwirfoddolwyr dan sylw, yr oriau gwirfoddoli a dreuliwyd, nifer y coed a blannwyd, a faint o gynnyrch a dyfwyd. Un ffigur allweddol yw bod yr astudiaethau achos, gyda'i gilydd, wedi adrodd bod o leiaf 9,000 o wirfoddolwyr wedi bod yn ymwneud â'r prosiectau dan sylw (dros y pedair blynedd).

Er bod yr astudiaethau achos yn rhoi cipolwg defnyddiol ar gyflawniadau ar lefel prosiect, mae'r data a ddarperir ganddyn nhw yn gyfyngedig o ran asesu'r hyn a gyflawnwyd ar lefel cynllun. Mae'r data meintiol yn yr astudiaethau achos yn anghyson, ac mae'n anodd safoni data ansoddol ar draws y prosiectau a'r safleoedd mewn ffordd sy'n caniatáu i'r cyflawniadau ar lefel cynllun gael eu hasesu. Mae'r gwerthusiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn wrth iddo fynd rhagddo. Serch hynny, mae'r astudiaethau achos yn rhoi cipolwg ar y gwahanol ffyrdd y mae prosiectau wedi ymgysylltu â chymunedau lleol, gwella mannau natur, a hyrwyddo cynaliadwyedd a llesiant. Isod, nodir y prif themâu sy'n codi dro ar ôl tro o'r astudiaethau achos. Y ddwy thema amlycaf, fodd bynnag, yw ymgysylltu â'r gymuned a gwella'r amgylchedd, sy'n amlwg ym mhob astudiaeth achos bron.

### 8.6.1 Gwella mannau natur/amgylcheddol

Mae'r holl astudiaethau achos yn canolbwyntio ar greu gerddi ac amgylcheddau sy'n ystyriol o fywyd gwyllt mewn rhyw ffordd drwy blannu rhywogaethau brodorol a datblygu mannau gwyrdd. Bwriad yr ymdrechion hyn oedd cynyddu presenoldeb peillwyr, adar, a mathau eraill o fywyd gwyllt a, thrwy hynny, gyfrannu at y cydbwysedd ecolegol. Mae enghreifftiau'n cynnwys sefydlu dolydd blodau gwyllt a chreu coridorau bywyd gwyllt. Mae'r astudiaethau achos yn cyflwyno cyfuniad o dystiolaeth ansoddol a meintiol i ddangos bod amgylcheddau sy'n ystyriol o fywyd gwyllt wedi cael eu creu. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r gwelliannau a wnaed, dyfyniadau gan gyfranogwyr ac aelodau o'r gymuned, ac allbynnau penodol fel nifer y coed a blannwyd a chreu dolydd blodau gwyllt.

### 8.6.2 Ymgysylltu â'r gymuned

Fel y nodwyd yn flaenorol, adroddodd astudiaethau achos fod o leiaf 9,000 o wirfoddolwyr yn ymwneud â phrosiectau. Mae'r holl astudiaethau achos yn cyfeirio at wirfoddolwyr ac ymgysylltu â'r gymuned. Roedd y prosiectau'n ceisio meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a balchder drwy gynnwys trigolion, ysgolion, a grwpiau cymunedol. Dywedwyd bod gwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o weithredu a chynnal prosiectau, a dywedwyd bod hyn yn arwain at fwy o gydlyniant cymdeithasol a chwlwm cymunedol cryfach. Er enghraifft, roedd prosiectau'n cynnwys ysgolion lleol mewn gweithgareddau plannu, ac mae hyn nid yn unig yn harddu'r ardal ond hefyd yn addysgu plant am bwysigrwydd natur. Unwaith eto, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd ar ffurf dyfyniadau, fel arfer, gan ddetholiad o gyfranogwyr ac, mewn rhai achosion, nifer o'r gwirfoddolwyr a oedd yn cymryd rhan. Mae oddeutu 100 o astudiaethau achos yn disgrifio hefyd sut y cyfrannodd gwirfoddolwyr eu hamser a'u sgiliau, gan ennill profiadau newydd a datblygu sgiliau newydd yn y broses. Roedd enghreifftiau cyffredin yn cynnwys diwrnodau plannu dan arweiniad gwirfoddolwyr a sesiynau hyfforddi i wirfoddolwyr er mwyn eu cynnwys mewn prosiectau. Bwriad y sesiynau hyn oedd cynnal y cyfranogiad a'r camau gweithredu a gymerwyd, er na chafodd hyn ei fesur.

### 8.6.3 Roedd cryn ffocws ar wella iechyd corfforol ac iechyd meddwl

Disgrifiodd dros 300 o'r astudiaethau achos weithgareddau a wnaed y dywedwyd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwirfoddolwyr a chyfranogwyr. Dywedwyd bod manteision iechyd corfforol wedi cael eu cyflawni drwy dasgau garddio, plannu ac adeiladu, a oedd yn cynnig ymarfer corff ac yn gwella lefelau

ffitrwydd. Mae tua 150 o astudiaethau achos yn trafod manteision i iechyd meddwl (i drigolion lleol, gwirfoddolwyr, plant, yr henoed, a'r rheini sydd â namau) wrth greu amgylcheddau tawel gyda gerddi synhwyraidd a dolydd blodau gwyllt, meithrin rhyngweithio cymdeithasol, ac ymgysylltu â byd natur drwy weithgareddau awyr agored. Nodwyd hefyd fod sesiynau addysgol a therapiwtig ar arddio a chadwraeth bywyd gwyllt wedi rhoi hwb i hunan-barch a llesiant meddyliol. Hefyd, dywedwyd bod gweithgareddau gwirfoddoli a datblygu sgiliau wedi rhoi ymdeimlad o bwrpas a chyflawniad.

#### 8.6.4 Addysg

Disgrifiodd dros 200 o astudiaethau achos sut roedd prosiectau, drwy ymgorffori cyfleoedd dysgu i blant ac oedolion, yn darparu profiadau ymarferol gyda'r nod o addysgu sgiliau gwerthfawr i'r rhai a oedd yn cymryd rhan. Roedd ysgolion a grwpiau cymunedol yn cymryd rhan yn aml, gan gynnig sesiynau addysgol ar bynciau fel garddio, cynaliadwyedd, a chadwraeth amgylcheddol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys prosiectau garddio mewn ysgolion a gweithdai ar gompostio.

#### 8.6.5 Lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a hyrwyddo cynhwysiant

Roedd tua 50 o astudiaethau achos yn trafod sut roedd y prosiect yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gan ddisgrifio sut roedd gweithgareddau'n dod â phobl o wahanol oedrannau, cefndiroedd, a galluoedd at ei gilydd. Wrth ddefnyddio ffordd gynhwysol, roedd hyn yn golygu bod mannau ar gael i bob aelod o'r gymuned. Roedd enghreifftiau'n cynnwys creu gerddi hygyrch [troednodyn 9] yn ogystal â digwyddiadau cymunedol mewn mannau gwyrdd.

Roedd y prosiectau a gefnogwyd wedi cynnal amrywiol weithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi grwpiau dan anfantais neu grwpiau heb eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys unigolion â namau, problemau iechyd meddwl, a'r rheini sy'n wynebu arwahanrwydd cymdeithasol. Er enghraifft, fel y nodwyd yn flaenorol, mae prosiectau wedi datblygu mannau gwyrdd hygyrch gyda gwelyau uchel i blanhigion a llwybrau i sicrhau bod unigolion sydd â namau corfforol yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio ac awyr agored. Roedd y mannau hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff, rhyngweithio cymdeithasol, ac ymgysylltu â byd natur, gan gyfrannu at well iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Trefnwyd sesiynau garddio therapiwtig ar gyfer unigolion â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys gweithgareddau fel plannu, cynnal a chadw gerddi, ac ymgysylltu â byd natur. Adroddwyd bod y sesiynau hyn yn lleihau straen a phryder, gan wella llesiant meddyliol yn gyffredinol, er nad oes unrhyw fanylion i gadarnhau fod cyfranogwyr y sesiwn wedi nodi hyn. Ar ben hynny, roedd prosiectau'n canolbwyntio ar feithrin rhyngweithio cymdeithasol ac adeiladu cymunedau drwy gynnwys gwirfoddolwyr a chyfranogwyr mewn gweithgareddau grŵp fel plannu coed, creu dolydd blodau gwyllt, ac adeiladu strwythurau gardd. Disgrifiodd astudiaethau achos sut y gall y gweithgareddau hyn helpu i leihau teimladau o unigedd ac

**Troednodiadau**

[9] Gardd/gofod wedi'i gynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion pobl â gwahanol ofynion o ran symud; roedd un prosiect, er enghraifft, yn cynnwys gwelyau planhigion uchel a oedd yn hawdd i wirfoddolwyr â phroblemau symud eu cynnal.

unigrwydd, gan hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol. Ond, mae'n bwysig pwysleisio bod y dystiolaeth ar y canlyniadau hyn a gyflawnir gan brosiectau yn brin yn yr astudiaethau achos.

## 8.7 Deall pam mae prosiectau'n llwyddiannus

Yn y cyfweliadau gydag 11 cydlynydd KWT, roedd ffocws cryf ar y ffactorau a oedd yn gwneud prosiectau'n 'llwyddiannus' o'u safbwynt nhw. Roedd y rhain yn cynnwys bodloni nodau ac amcanion y cynllun yn ogystal â'r tebygolrwydd y bydd y prosiect/safle'n cael ei gynnal y tu hwnt i'r cymorth a ddarperir. Dyma'r ffactorau llwyddiant allweddol a nodwyd:

- Perchnogaeth ac ymgysylltiad y gymuned: yn aml iawn, roedd ymgysylltu cryf â'r gymuned ac ymdeimlad cadarn o berchnogaeth ymysg cyfranogwyr mewn prosiectau llwyddiannus. Roedd yr ymdeimlad hwn o berchnogaeth a chyfranogiad rheolaidd yn helpu i gynnal y prosiect. Roedd cydlynwyr KWT hefyd yn teimlo bod prosiectau'n ei chael yn anodd pan oedd diffyg ymgysylltu â gwirfoddolwyr neu pan nad oedd grwpiau gwirfoddolwyr wedi'u sefydlu'n dda.
- Ymdrechion ar y Cyd: ystyriwyd bod prosiectau a oedd yn cynnwys nifer o randdeiliaid ac ymdrechion ar y cyd yn fwy tebygol o lwyddo, gan eu bod yn gallu defnyddio'r ystod o sgiliau a galluoedd a gynigir gan y partneriaid hynny a bod yn llai dibynnol ar un sefydliad a/neu ychydig o unigolion allweddol.
- Adnoddau a Chymorth wedi'u Teilwra: roedd cymorth wedi'i deilwra gan gydlynydd KWT yn ffactor allweddol arall a nodwyd yn ystod y drafodaeth. Er enghraifft, gallai swyddogion prosiect gynnig cymorth llawer mwy 'ymarferol' gyda rhai prosiectau, gan ddarparu cyngor mwy ymarferol ar sut mae rhoi prosiect ar waith lle bo angen.

Nododd cydlynwyr KWT rwystrau rhag llwyddiant hefyd:

- Newidiadau mewn Staff Allweddol: roedd newidiadau mewn staff allweddol, fel athrawon neu arweinwyr cymunedol, yn cael effaith negyddol ar lwyddiant prosiectau, er enghraifft, newidiadau o ran yr athrawon sy'n gyfrifol am brosiect.
- Gwirfoddolwyr yn diflasu: mewn rhai achosion, gwelwyd diddordeb y gwirfoddolwyr yn lleihau, yn enwedig pan nad oedd gan brosiectau gefnogaeth tymor hwy, er enghraifft, o ran cefnogaeth staff neu swyddogion prosiect, i ddatblygu prosiectau a chynnal momentwm.
- Rhwystrau Ffisegol a Logistaidd: roedd rhwystrau ffisegol a logistaidd, fel problemau perchnogaeth tir neu heriau o ran hygyrchedd, yn llesteirio prosiectau.

Yn ystod trafodaethau gyda thîm KWT, tynnwyd sylw at y ffaith bod y cyllid, yr offer a'r adnoddau sydd ar gael gyda phecynnau parod y cynllun, yn ffordd o oresgyn rhwystrau. Dywedwyd bod y dull o ddefnyddio pecynnau parod yn symleiddio'r broses i grwpiau cymunedol, ac yn eu galluogi i ganolbwyntio ar weithredu (yn hytrach na gorfod delio â cheisiadau cymhleth am gyllid neu chwilio am ddeunyddiau).

## 8.8 Casgliad a'r camau nesaf

Ar ôl sefydlu'r Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhoddodd y cynllun gefnogaeth i dros 1,400 o brosiectau ledled Cymru dros y pedair blynedd ariannol a adolygwyd yma, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi. Roedd data monitro, adroddiad gwerthuso mewnol, ac astudiaethau achos yn dangos canlyniadau cadarnhaol i unigolion a chymunedau. Roedd y prosiectau wedi gwella mannau natur, meithrin ymgysylltiad y gymuned, hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol, a darparu cyfleoedd addysgol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys anghysondeb yn y data meintiol a gasglwyd yn ogystal â dibyniaeth ar ddata ansoddol yn erbyn cwestiynau sy'n benodol i brosiect. Mae'n anodd defnyddio hyn i farnu ar lefel cynllun. Ond, mae ystod a faint o weithgarwch sy'n cael ei wneud, gan gynnwys nifer y bobl sy'n cymryd rhan, yn glir.

Mae'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant y prosiect, fel yr awgrymwyd yn ystod cyfweliadau â staff KWT, ac yn yr adroddiadau a'r astudiaethau achos a adolygwyd, yn cynnwys ymgysylltiad a pherchnogaeth y gymuned, ymdrechion ar y cyd, a chymorth wedi'i deilwra gan swyddogion KWT. Fodd bynnag, roedd heriau pwysig yn amlwg hefyd fel newidiadau mewn staff allweddol, gwirfoddolwyr yn diflasu, a rhwystrau logistaidd sydd wedi llesteirio prosiectau.

Er bod yr wybodaeth a adolygwyd yn awgrymu effeithiau cadarnhaol, mae'r dystiolaeth yn anecdotaidd yn bennaf ac yn seiliedig ar faint sampl cyfyngedig. Mae angen rhagor o ymchwil i gael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r canlyniadau tymor hir ac effeithiolrwydd y cynllun o ran cyflawni ei amcanion. Unwaith eto, wrth symud ymlaen, bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar gasglu data cyson ac annibynnol am ganlyniadau'r prosiectau a ariannwyd, gan gynnwys ymweliadau â sampl o'r prosiectau a gefnogwyd.

# 9. Casgliadau Interim

Adroddiad interim yw hwn ar gyfer gwerthusiad sy'n mynd rhagddo. O'r herwydd, mae'r canfyddiadau a'r casgliadau a nodir isod yn gallu newid wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo. Wedi dweud hynny, mae'r gwaith a wnaed hyd yma yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer dechrau dod i gasgliadau a chyflwyno canfyddiadau. Fodd bynnag, nid oes gwaith ymchwil sylfaenol wedi'i wneud eto gyda'r unigolion a'r cymunedau sydd wedi cymryd rhan yng nghynlluniau a phrosiectau LPfN. Mae'r gwaith hwnnw'n angenrheidiol i brofi a darparu tystiolaeth o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran yr hyn y mae cynlluniau a phrosiectau LPfN yn ei gyflawni, fel y trafodir isod.

## 9.1 Damcaniaeth Newid

Mae'r Ddamcaniaeth Newid a ddatblygwyd ar gyfer LPfN yn cysylltu'r broses o greu mannau gwyrdd/natur â mwy o gefnogaeth gan unigolion a chymunedau i fyd natur. Mae'n awgrymu, drwy roi cyfleoedd i bobl ymgysylltu â byd natur, y byddan nhw'n fwy tebygol o'i werthfawrogi a chefnogi ymdrechion i'w ddiogelu a'i adfer. Dyma'r ddamcaniaeth sy'n sail i LPfN fel ymyriad.

Mae dwy brif effaith gyffredinol y mae'r rhaglen yn ceisio ei chyflawni: (a) cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cymryd camau i gefnogi natur, a (b) llesiant cymunedol gwell. Nododd y Ddamcaniaeth Newid ddau 'lwybr' ar gyfer cyflawni'r effeithiau hynny, gan ddechrau gyda'r gweithgarwch o greu mwy o 'leoedd natur': un ar gyfer mwy o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gweithredu gan unigolion i gefnogi natur, ac un ar gyfer gwell llesiant cymunedol yn fwy cyffredinol. Mae'r canlyniadau a nodwyd yn pwysleisio bod LPfN yn fwy na dim ond ymyriad 'natur' a'i fod yn ceisio cyfrannu at amrywiol feysydd polisi Llywodraeth Cymru.

Mae rhagdybiaethau ynghylch y cysylltiadau achosol rhwng gweithgareddau (allbynnau), canlyniadau ac effaith yn rhan allweddol o Ddamcaniaeth Newid. Y rhagdybiaeth hollbwysig yn y ddamcaniaeth ar gyfer LPfN yw y bydd creu lleoedd natur lle mae pobl yn byw a/neu'n gweithio ynddyn nhw, yn golygu y byddan nhw'n rhoi mwy o werth ar fyd natur ac y bydd eu hymddygiad yn newid wedyn. Mae'r rhagdybiaethau sydd wedi'u nodi gan yr ymchwil hyd yma yn cael eu hategu gan ymchwil academaidd. Fodd bynnag, bydd angen goresgyn y rhwystrau (gan gynnwys hygyrchedd safle a chyfyngiadau ariannol) os ydym am wireddu'r ddamcaniaeth a nodir. Unwaith eto, bydd y rhain yn dal yn cael eu harchwilio ymhellach wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo ac wrth ymgysylltu â chymunedau lle mae prosiectau wedi cael eu cefnogi.

Nodwyd bod grwpiau cymunedol (ac unigolion allweddol yn y grwpiau hynny) yn ganolog i gyflawni'r canlyniadau a'r effaith a ddymunir gan y rhaglen LPfN; mae rhanddeiliaid a gyfwelwyd hyd yma (gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a staff y cynllun) yn ystyried bod eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad yn hanfodol er mwyn i brosiectau gyflawni eu hamcanion. Unwaith eto, edrychir yn fanylach ar hyn fel rhan o gam nesaf y gwerthusiad.

## 9.2 Y cynlluniau

Mae llawer iawn o weithgarwch wedi digwydd ar draws y cynlluniau LPfN, gan gynnwys gwaith y Partneriaethau Natur Lleol, sef y cynllun mwyaf yn y rhaglen sydd â gwerth o dros £30 miliwn, rhwng 2023 a 2025.

Mae’r prif allbynnau yr adroddwyd amdanyn nhw yn y tri adroddiad diwedd-blwyddyn diwethaf (blynyddoedd ariannol 2021 i 2022, 2022 i 2023, a 2023 i 2024) ar gyfer y cynllun LNP yn cynnwys creu 178 o fannau gwyrdd newydd (788 hectar) a 2,762 o asedau cyfalaf, sy’n 769 hectar. Yn ystod yr un cyfnod, bu 4,332 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny, gan gyfrannu dros 25,000 awr i’r prosiectau. Fodd bynnag, nid oes llawer o ddata ar yr hyn y mae’r ymwneud hwn â’r prosiectau wedi’i olygu i’r gwirfoddolwyr hynny ac ni ellir dweud, ar hyn o bryd, a yw’r canlyniadau a nodwyd gan y model Damcaniaeth Newid yn cael eu cyflawni. Mae’r data sydd ar gael yn dangos bod gweithgarwch perthnasol yn digwydd, ond mae angen casglu’r dystiolaeth ar effeithiolrwydd a chanlyniadau’r gweithgarwch hwnnw.

Nod y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol, sy’n cael ei ddarparu gan y Partneriaethau Natur Lleol, yw gwella capasiti mewn cymunedau arfordirol yng Nghymru. Gan ddechrau’n hwyrach na’r cynlluniau eraill, mae 11 prosiect wedi cael eu hariannu ers ei sefydlu yn 2023, gyda’r holl brosiectau’n gorfod cael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Mae’r prosiectau hyn yn cael eu rhoi ar waith mewn pum ardal LNP, sy’n golygu bod rhai ardaloedd LNP arfordirol heb wneud cais am brosiectau ac nad ydynt, felly, yn rhan o’r cynllun.

Gan fod rhai prosiectau’n dal i fynd rhagddynt neu fod rhai ond newydd gael eu cwblhau, prin yw’r data sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y canlyniadau a gyflawnwyd. Mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod prosiectau wedi dod â phartneriaid a rhanddeiliaid amrywiol at ei gilydd. Edrychir yn fanylach ar y canlyniadau hyn sy’n dod i’r amlwg wrth symud ymlaen, er bod yn rhaid cydnabod bod y prosiectau hyn yn gymharol ddiweddar ac yn dal i fod yng nghamau diweddarach y broses o’u cyflawni. Edrychir ymhellach ar gyflwyno’r cynllun drwy strwythur Cynllun y LNP hefyd. Bydd cam nesaf y gwerthusiad hefyd yn ystyried sut mae prosiectau’r Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol yn wahanol i’r rhai a gefnogir gan gynlluniau eraill LPfN. Mae hyn yng ngoleuni’r pwyslais cynyddol yn y cynllun Arfordirol ar feithrin gallu a datblygu’r gadwyn gyflenwi ac mae’n adeiladu ar ganfyddiadau’r Ddamcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen. Edrychir hefyd ar sut mae’r cynllun yn cyd-fynd â nodau mwy cyffredinol LPfN.

Llwyddodd Cronfa Grantiau Cyfalaf NLHF i ddosbarthu dros £2 miliwn rhwng 2020 a 2024. Er bod rhai prosiectau ar raddfa fwy, roedd y rhan fwyaf o’r grantiau’n gymharol fach, gyda chyfartaledd o £53,000 ar draws y 41 prosiect a gefnogwyd. Roedd cynghorau tref a chymuned yn chwarae rhan amlwg wrth gyflawni’r cynllun.

Un o’r canfyddiadau allweddol hyd yma yw nad oedd dosbarthiad y grantiau cyfalaf a’r cyllid ledled Cymru yn gyfartal. Fodd bynnag, roedd y cynllun yn cael ei arwain gan y galw ac yn agored i geisiadau o bob rhan o Gymru, gan gyfyngu ar botensial y cynllun i gael ei ‘dargedu’ at ardaloedd penodol yng Nghymru.

Mae adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cwblhau a baratowyd gan ymgeiswyr grantiau yn rhoi cipolwg defnyddiol o'r hyn mae'r prosiectau a ariannwyd wedi'i gyflawni. Nodwyd ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol gan y prosiectau, gyda phwyslais penodol ar ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddangos y canlyniadau hynny yn anecdotaidd fel arfer ac yn gyfyngedig o ran ei photensial i ddangos canlyniadau ac effeithiau ar draws y cynlluniau. Roedd y dystiolaeth hefyd yn cael ei chasglu'n gyffredinol gan y prosiectau eu hunain ar sail eu gweithgareddau a'u blaenoriaethau penodol.

Cefnogodd y Cynllun Chwalu Rhwystrau, a ddarparwyd gan yr NLHF, amrywiaeth o brosiectau a gymeradwywyd rhwng y blynyddoedd ariannol 2021 a 2022 a 2022 a 2023. Roedd y cynllun yn darparu cyllid refeniw i sefydliadau (gan ganiatáu i gostau staff gael eu hariannu, er enghraifft), yn wahanol i gyllid cynlluniau eraill a oedd yn darparu cyllid cyfalaf yn bennaf. Roedd natur y prosiectau a'r gweithgareddau a ariannwyd gan y Cynllun Chwalu Rhwystrau yn wahanol iawn felly i'r rhai a gefnogwyd gan y Cynllun Grantiau Cyfalaf. Roedd dosbarthiad prosiectau Cynllun Chwalu Rhwystrau'n eithaf cyfyngedig, heb unrhyw brosiectau'n cael eu hariannu y tu allan i dde Cymru. Unwaith eto, dylid nodi bod y cynllun yn cael ei arwain gan y galw, gan ei fod yn cyfyngu ar botensial y cynllun i gael ei 'dargedu' at ardaloedd penodol yng Nghymru.

Mae angen nodi eto bod y dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig, sef bod y dystiolaeth a gesglir yn gyffredinol yn benodol i brosiect ac yn anecdotaidd. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol mai'r derbynwyr grant a gynhyrchodd yr adroddiadau hyn ac mai eu barn nhw am gyflawniadau'r prosiect a'r budd iddyn nhw fel sefydliad yw'r adroddiadau hyn. Felly, nid yw'r dystiolaeth yn annibynnol (nid oedd y cyllidwr yn gofyn iddo fod). Ond, mae'r dystiolaeth sydd ar gael, yn enwedig gwerthusiad ar lefel prosiect ac adroddiadau cwblhau prosiect, yn awgrymu bod y cyllid a ddarparwyd i sefydliadau wedi bod yn werthfawr o ran cefnogi gweithgareddau. Roedd y prif lwyddiannau a nodwyd gan y derbynwyr grant yn cynnwys ymgysylltu â'r grwpiau targed mewn gweithgareddau amrywiol fel gweithgareddau'r amgylchedd a gwirfoddoli, manteision i lesiant wrth fod yn yr awyr agored, ac ymweliadau â safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Roedd y prosiectau hefyd yn ymgysylltu ac yn cefnogi pobl awtistig, unigolion â phroblemau iechyd meddwl, neu unigolion â namau dysgu, gan geisio helpu i feithrin eu hyder, datblygu eu sgiliau cymdeithasol, a gwella ansawdd eu bywyd. Roedd y dystiolaeth oedd ar gael, fodd bynnag, yn canolbwyntio i raddau helaeth ar allbynnau gweithgareddau yn ogystal â thystiolaeth anecdotaidd o ganlyniadau a gyflawnwyd.

Roedd y Cynllun Pecynnau Cymunedol a ddarparwyd gan KWT wedi cefnogi dros 1,400 o brosiectau ledled Cymru dros bedair blynedd ariannol (yn dechrau o 2020 i 2021), gan ganolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi. Roedd data monitro, adroddiad gwerthuso mewnol, ac astudiaethau achos yn dangos canlyniadau cadarnhaol i unigolion a chymunedau. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig, ac yn anecdotaidd yn bennaf o ran dangos y canlyniadau a gyflawnwyd.

Dyma'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant y prosiect, fel yr awgrymwyd yn yr adroddiadau a'r astudiaethau achos a adolygwyd, yn ogystal ag yn ystod cyfweliadau gyda thîm KWT:

- Ymgysylltu cryf â'r gymuned ac ymdeimlad o berchnogaeth ymysg cyfranogwyr.
- Cydweithredu effeithiol a chynnwys nifer o randdeiliaid er mwyn gallu defnyddio'r ystod o sgiliau a galluoedd a bod yn llai dibynnol ar un sefydliad a/neu ychydig o unigolion allweddol.
- Cymorth wedi'i deilwra gan gydlynydd KWT, gan gynnwys, er enghraifft, gallu bod yn fwy ymarferol gyda rhai prosiectau lle bo angen.

Nododd cydlynwyr KWT nifer o ffactorau hefyd sy'n gallu cyfyngu ar botensial prosiectau i lwyddo. Roedd newidiadau mewn staff allweddol, fel athrawon neu arweinwyr cymunedol, yn cael effaith negyddol ar brosiectau. Roedd diflastod ymhlith gwirfoddolwyr hefyd yn effeithio ar ymgysylltu, yn enwedig pan oedd diffyg cefnogaeth tymor hir. Roedd rhwystrau ffisegol a logistaidd, fel problemau perchnogaeth tir, yn llesteirio prosiectau. Ond, dywedwyd bod y cyllid, yr offer a'r adnoddau oedd ar gael drwy gynllun pecynnau parod yn helpu i oresgyn y rhwystrau hynny drwy symleiddio'r broses ar gyfer grwpiau cymunedol.


## 9.3 Y camau nesaf

Er bod llawer iawn o wybodaeth ar gael am y gweithgareddau a gyflawnir gan gynlluniau LPfN, un o'r prif bethau sy'n codi o'r gwerthusiad hyd yma yw bod angen mwy o dystiolaeth o ganlyniadau'r gweithgareddau hynny. Mae hyn yn ymwneud yn benodol ag amcanion allweddol y gwerthusiad hwn, sef archwilio (a) yr effeithiau cymdeithasol ar lefel grŵp cymunedol a lefel gymunedol gyffredinol prosiectau LPfN yn eu hardaloedd, a (b) i ba raddau y mae LPfN yn ffordd o annog cymunedau, unigolion a sefydliadau i weithredu i gefnogi a gwerthfawrogi byd natur.

Wrth symud ymlaen, bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ymgysylltu mwy â phrosiectau ac ymweld â sampl o'r prosiectau sydd wedi cael eu cefnogi gan gynlluniau LPfN, gyda'r bwriad o gasglu tystiolaeth fwy cyson ac annibynnol o'r canlyniadau a gyflawnwyd. Bydd y data a gesglir hefyd yn cael ei ddefnyddio i ailedrych ar Ddamcaniaeth Newid y rhaglen a ddatblygwyd, gan brofi'r canlyniadau a'r rhagdybiaethau a nodwyd ac asesu i ba raddau y gellir dangos tystiolaeth o'r effaith y mae'r rhaglen yn ceisio ei chyflawni.

## 10. Atodiad A: Modelau Damcaniaeth Newid sy’n dangos gweithgareddau ac ar gyfer y cynlluniau unigol


**Ffigur 10.1: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen (gan gynnwys gweithgareddau/allbynnau, canlyniadau ac effeithiau)**



Disgrifiad o ffigur 10.1: Siart llif yn dangos proses a chanlyniadau prosiectau cymunedol sy'n canolbwyntio ar fyd natur. Mae'r siart yn dechrau gyda gweithgareddau fel gweithgareddau Cydlynydd OVW, hwyluswyr Chwalu Rhwystrau NLHF, a chynghorwyr KWT sy'n cefnogi grwpiau cymunedol. Mae'r rhain yn arwain at ganlyniadau megis cynnwys mwy o gymunedau, datblygu prosiectau gwell, a sefydlu partneriaethau. Mae'r gweithgarwch canolog, "Rhoi prosiectau ar waith" (prosiectau LNP, pecynnau KWT, NLHF, Prosiectau arfordirol), yn cyfrannu at ganlyniadau fel mwy o fyd natur ar gael, gwirfoddoli, a rhwydweithio cymdeithasol. Mae'r effeithiau ar y diwedd yn cynnwys mwy o weithredu gan unigolion i gefnogi natur, a llesiant cymunedol gwell.

**Ffigur 10.2: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer Cynllun LNP**

Amcan: adeiladu rhwydwaith adfer byd natur a fydd yn cynnwys pobl a chymunedau, yn ogystal â busnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, mewn gweithredu ymarferol a chynllunio strategol ar gyfer Cymru iach, gydnerth a chyforiog o natur.





Disgrifiad o Ffigur 10.2: Siart llif yn dangos effeithiau, canlyniadau, a gweithgareddau Partneriaeth Natur Leol (LNP). Rhennir y siart yn ddwy ran gan linell lorweddol doredig. Mae'r rhan uchaf yn canolbwyntio ar weithredu gan unigolion i gefnogi natur, ac effaith hyn ar lesiant ac iechyd cymunedol. Mae'n cynnwys canlyniadau fel mwy o falchder bro, rhwydweithiau cymdeithasol, gwirfoddoli, a mynediad at fyd natur. Mae'r adran waelod yn rhoi pwys ar gefnogi anghenion adfer natur yn lleol a chenedlaethol drwy brosiectau gwell, cyfathrebu effeithiol, gweithgareddau meithrin gallu, a mwy o bobl yn cymryd rhan mewn prosiectau.

**Ffigur 10.3: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y Cynlluniau Grantiau Cyfalaf Natur a Chwalu Rhwystrau**

Amcan y Cynllun Grantiau Cyfalaf: galluogi cymunedau yng Nghymru i gaffael, i adfer ac i wella byd natur. Dylai prosiectau drawsnewid byd natur lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn treulio eu hamser hamdden.

Amcan y Cynllun Chwalu Rhwystrau: ceisio sicrhau bod cymunedau sydd â rhwystrau sy'n eu heithrio neu'n eu rhoi dan anfantais o ran cael mynediad at fyd natur, yn ymgysylltu mwy â LPfN.





Disgrifiad o Ffigur 10.3: Siart llif yn amlinellu effaith, canlyniadau, a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adfer natur a llesiant cymunedol. Mae'r siart wedi'i rhannu'n ddwy brif ran: uwchben y llinell doredig y mae'r effeithiau a'r canlyniadau, ac oddi tani mae'r gweithgareddau. Mae'r effeithiau yn cynnwys mwy o weithredu gan unigolion i gefnogi natur, a llesiant cymunedol gwell. Mae'r canlyniadau'n tynnu sylw at gefnogaeth i adfer natur yn lleol ac yn genedlaethol, mwy o falchder bro, iechyd a llesiant personol a theuluoedd, gwerthfawrogi natur, rhwydweithio cymdeithasol, argaeledd natur, a gwirfoddoli.

Mae’r gweithgareddau’n cynnwys cefnogaeth ariannol i brosiectau, hyrwyddo cynlluniau, a hwyluswyr sy’n gweithio gyda chymunedau.

**Ffigur 10.4: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol**


Amcan: grymuso cymunedau ar draws Cymru i adfer ac i wella byd natur.




Disgrifiad o Ffigur 10.4: Siart llif yn amlinellu effaith, canlyniadau, a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adfer natur a llesiant cymunedol. Mae'r siart wedi'i rhannu'n ddwy brif ran: uwchben y llinell doredig y mae'r effeithiau a'r canlyniadau, ac oddi tani mae'r gweithgareddau. Mae'r effeithiau yn cynnwys mwy o weithredu gan unigolion i gefnogi natur, a llesiant cymunedol gwell. Mae'r canlyniadau'n tynnu sylw at gefnogaeth i adfer natur yn lleol ac yn genedlaethol, mwy o falchder bro, iechyd a llesiant personol a theuluoedd, gwerthfawrogi natur, rhwydweithio cymdeithasol, argaeledd natur, a gwirfoddoli. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys amrywiaeth o brosiectau a roddir ar waith gan grwpiau cymunedol, hyrwyddo cynlluniau, a chynghorwyr yn rhoi cefnogaeth i grwpiau cymunedol.

**Ffigur 10.5: Model Damcaniaeth Newid ar gyfer y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol**

Amcan: meithrin gallu rhanddeiliaid mewn cymunedau arfordirol. Mae’n cydnabod pwysigrwydd ardaloedd arfordirol ar gyfer adfer byd natur a llesiant cymunedol.




Disgrifiad o Ffigur 10.5: Siart llif yn amlinellu amrywiol effeithiau, canlyniadau, a gweithgareddau sy’n gysylltiedig ag amcanion economaidd ac amcanion amgylcheddol. Mae’r siart yn dangos sut mae gwahanol weithgareddau’n arwain at ganlyniadau penodol sydd, yn eu tro, yn cyfrannu at effeithiau ehangach. Mae’n cynnwys cysylltiadau rhwng cefnogi mentrau adfer natur yn lleol a chenedlaethol, gwella llesiant cymunedol, gwella dealltwriaeth o brosesau naturiol, a chynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd lleol. Mae’r effeithiau’n cynnwys mwy o ddiddordeb/cefnogaeth gan unigolion i fyd natur, llesiant cymunedol gwell, mwy o gefnogaeth i fynd i’r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur, a chanlyniadau economaidd. Mae’r canlyniadau’n tynnu sylw at gefnogaeth i gynlluniau adfer natur yn lleol ac yn genedlaethol, mwy o weithgareddau awyr agored, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brosesau naturiol, ac ymgysylltu â’r gymuned. Mae’r gweithgareddau’n cynnwys cyllid i wella mannau gwyrdd/glas a chyfathrebu effeithiol.

# 11. Atodiad B: Pecynnau’r Cynllun Pecynnau Cymunedol

Mae’r pecynnau cychwyn ar gyfer prosiectau garddio bach. Gall unrhyw grŵp cymunedol neu wirfoddol wneud cais heb fod angen iddyn nhw gael cyfrif banc na chyfansoddiad. Mae dau becyn cychwyn penodol i ddewis o'u plith: Gardd Tyfu Bwyd neu Ardd Bywyd Gwyllt. Mae pob un yn cynnwys popeth angenrheidiol – planhigion brodorol, offer a deunyddiau, canllawiau ar sut mae sefydlu’r ardd, ac ychydig o amser gan swyddog KWT i ddarparu cyngor a chymorth ychwanegol.

Mae’r pecynnau datblygu ar gyfer sefydliadau cymunedol sy'n dymuno creu prosiectau ar raddfa fwy. Gall ystod o sefydliadau cymunedol wneud cais – o fentrau cymdeithasol, grwpiau ieuenctid, a grwpiau ffydd i elusennau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ddau becyn datblygu (Gardd Tyfu Bwyd neu Ardd Bywyd Gwyllt hefyd) wedi cael eu cynllunio i roi hwb i fyd natur, yn ogystal â gwella iechyd a lles pobl hefyd. Y nod yw dod â chymunedau ynghyd, annog pobl i wirfoddoli yn yr awyr agored, a chreu mannau gwyrdd i bawb eu mwynhau. Mae'r holl becynnau'n cynnwys hyfforddiant, cyngor, a chymorth ymarferol i sefydlu’r mannau newydd, yn ogystal â'r offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i ofalu amdanynt dros y tymor hir.

Mae dau fath o Becyn Perllan ar gael: gall sefydliadau a grwpiau cymunedol wneud cais am Becynnau Perllannau Cymunedol, a gall ysgolion wneud cais am Becynnau Perllan Ysgolion. Mae’r pecynnau’n cynnwys yr un eitemau, ond mae’r gefnogaeth y mae cymunedau’n ei chael gan KWT yn wahanol, yn dibynnu a yw’r sawl sy’n gwneud cais yn sefydliad cymunedol neu’n ysgol.

Cyflwynwyd Pecynnau Enfawr yn 2024, ac maen nhw wedi’u dylunio ar gyfer sefydliadau cymunedol sydd ag ardal enfawr o le gwag, sydd wedi’i esgeuluso (tua maint dau gwrt tenis a hanner) sydd ar gael i’w drawsnewid yn ardd gymunedol ffyniannus, ynghyd â pherllan, ardal tyfu bwyd, a phwll. Bydd swyddog penodol KWT yn helpu ymgeiswyr i gynllunio a chreu eu gardd enfawr, ond rhaid i gymunedau ymrwymo i ofalu amdani am flynyddoedd i ddod. Caiff ceisiadau eu hasesu gan banel o arbenigwyr, a rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd â chyfranogiad cymunedol cryf, y rheini mewn trefi, dinasoedd, ardaloedd difreintiedig, a mannau heb fawr ddim mynediad at fyd natur, os o gwbl.

Cyflwynwyd Pecynnau Adlenwi yn 2024 hefyd ar gyfer gerddi Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sy’n bodoli’n barod. Mae’r Pecynnau Adlenwi ar gael yn rhad ac am ddim, ac maen nhw’n cynnwys eitemau sydd eu hangen i wella mannau gwyrdd a gefnogwyd yn flaenorol. Mae ymgeiswyr hefyd yn cael cyngor arbenigol gan swyddog KWT i helpu i osod yr eitemau ychwanegol a thrafod ffyrdd eraill o sicrhau bod yr ardd yn ffynnu am flynyddoedd i ddod.

# 12. Atodiad C: Dangosyddion perfformiad llawn fesul blwyddyn ariannol ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol

**Tabl 12.1: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021**

| **Dangosyddion** | **Cyfanswm** |
|---|---:|
| Asedau cyfalaf wedi'u creu (nifer) | 520 |
| Lleoedd ar gyfer natur/cynefin wedi'u hadfer neu eu gwella (metrau sgwâr) | 30,520 |
| Nifer y gerddi wedi'u creu mewn lleoliadau trefol | 289 |
| Nifer yr ardaloedd blodau gwyllt a blannwyd | 520 |
| Ardal dolydd ac ymylon bywyd gwyllt (metrau sgwâr) | 10,430 |
| Nifer y perllannau cymunedol a blannwyd | 82 |
| Gwelliannau i beillwyr | 520 |
| Nifer y coed a blannwyd | 5,744 |
| (Ardaloedd) tyfu cymunedol wedi'u creu (metrau sgwâr) | 8,680 |
| Tyfu cymunedol (nifer y prosiectau) | 132 |
| Mannau cyhoeddus gwyrdd hygyrch wedi'u creu/gwella (metrau sgwâr) | 30,520 |

Ffynhonnell: Adroddiad Diwedd Blwyddyn Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Ebrill 2020 i Mawrth 2021, KWT

**Tabl 12.2: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022**

| **Dangosyddion** | **Cyfanswm** |
|---|---:|
| Nifer safleoedd cynefinoedd i beillwyr | 279 |
| Safleoedd tyfu bwyd cymunedol wedi'u creu | 157 |
| Mwy o goed wedi'u plannu (nifer y coed a blannwyd) | 4,985 |
| Nifer y perllannau cymunedol wedi'u creu | 157 |
| Cynlluniau creu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth | 2 |
| Gerddi synhwyraidd at ddibenion therapiwtig, a gyflwynir mewn partneriaeth ag elusennau iechyd a GIG Cymru | 27 |
| Nifer y bylbiau/prysglwyni/llwyni brodorol a blannwyd | 142,472 |
| Ardal wedi'i chreu/gwella ar gyfer natur (metr sgwâr) | 23,470 |
| Cyfranogwyr sy'n rhan o greu gerddi newydd | 1,930 |
| Oriau a dreuliwyd gan ymgeiswyr yn creu a rheoli gerddi newydd | 20,350 |
| Gerddi wedi'u sefydlu ar arwynebau wedi'u gwneud yn gyfan gwbl gan ddyn | 63 |

Ffynhonnell: Adroddiad Diwedd Blwyddyn Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Ebrill 2021 i Mawrth 2022, KWT

Mae Tabl 12.3 yn dangos y dangosyddion perfformiad ar gyfer dwy ffrwd gyllido yn ogystal â'r cyfanswm. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) yn cynrychioli'r cyllid a ddarparwyd i KWT gan Gynllun Grantiau Cyfalaf LPfN (a drafodir yn Adran 6 yr adroddiad

hwn). Y dangosyddion yn y golofn 'Llyw. Cymru' yw'r rhai a gofnodwyd ar gyfer cyllid LPfN a ddarparwyd yn uniongyrchol i KWT gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 12.3: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 – wedi'u rhannu yn ôl ffrwd gyllido**

| Dangosydd | NLHF | Llyw. Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Plannu mwy o flodau gwyllt, creu safleoedd cynefin i beillwyr | 41 | 220 | 261 |
| Plannu coed lleol gan gynnwys coed stryd, perllannau, a choetiroedd bach | 1,570 | 1,530 | 3,100 |
| Mwy o gyfleoedd tyfu bwyd cymunedol | 34 | 155 | 189 |
| Adfer neu greu perllannau cymunedol | 34 | 98 | 132 |
| Cynllun creu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth | 1 | 6 | 7 |
| Gerddi synhwyraidd at ddibenion therapiwtig, a gyflwynir mewn partneriaeth ag elusennau iechyd a GIG Cymru | 3 | 20 | 23 |
| Lleoedd ar gyfer natur/cynefin wedi'u hadfer neu eu gwella (metr sgwâr) | 7,695 | 24,005 | 31,700 |
| Ardaloedd tyfu cymunedol (metr sgwâr) | 4,300 | 14,835 | 19,135 |
| Mannau cyhoeddus gwyrdd hygyrch wedi'u gwella (metr sgwâr) | 7,695 | 24,005 | 31,700 |
| Gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan (nifer) | 1,533 | 3,974 | 5,507 |
| Oriau gwirfoddolwyr a gyfrannwyd | 14,765 | 30,220 | 44,985 |
| Asedau cymunedol wedi'u creu (nifer) | 41 | 220 | 261 |
| Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n 'gallu gweld' yr ased sy'n cael ei greu | 37,961 | 60,605 | 98,566 |

Ffynhonnell: Adroddiad Diwedd Blwyddyn Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Ebrill 2022 i Mawrth 2023, KWT

**Tabl 12.4: Dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Pecynnau Cymunedol, rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024**

| **Dangosyddion** | **Cyfanswm** |
|---|---:|
| Mannau gwyrdd wedi'u creu neu wedi'u gwella | 297 |
| Ardal wedi'i gwella ar gyfer natur (metr sgwâr) | 25,000 |
| Nifer y safleoedd plannu blodau gwyllt wedi'u gwella neu wedi'u creu | 297 |
| Nifer safleoedd cynefinoedd i beillwyr | 297 |
| Nifer y coed a blannwyd | 4,930 |
| Nifer y gerddi synhwyraidd wedi'u creu at ddibenion therapiwtig, a gyflwynir mewn partneriaeth ag elusennau iechyd a GIG Cymru | 19 |
| Nifer y cynlluniau creu cynefinoedd mewn gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth | 4 |
| Nifer y sefydliadau cymunedol a gefnogwyd | 664 |
| Gwirfoddolwyr (nifer) sy'n rhan o sefydlu gerddi a gwaith cynnal a chadw sylfaenol | 6,929 |
| Oriau gwirfoddolwyr sydd wedi'u cyfrannu at sefydlu gerddi a gwaith cynnal a chadw sylfaenol | 34,341 |

Ffynhonnell: Adroddiad Diwedd Blwyddyn Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Ebrill 2023 i Mawrth 2024, KWT